Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Diogelwch Tân Domestig

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 7) 2008

Adroddiad Pwyllgor

Mehefin 2008

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

I gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:

Swyddfa Ddeddfwriaeth
Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Diogelwch Tân Domestig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8032
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk

Cynnwys

---


| | Tud |
|---|---|
| **Aelodau'r Pwyllgor** | **iii** |
| **Crynodeb** | **1** |
| **1. Cyflwyniad** | **3** |
| **2. Egwyddor y Gorchymyn Arfaethedig** | **5** |
| **3. Cwmpas y Gorchymyn Arfaethedig** | **13** |
| **4. Dehongli'r Darpariaethau yn y Gorchymyn Arfaethedig** | **19** |
| **5. Materion Eraill** | **28** |
| **Atodiad 1:** Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol (Rhif 7) 2008 a Memorandwm Esboniadol | **41** |
| **Atodiad 2:** Llythyr Ymgynghori | **51** |
| **Atodiad 3:** Rhestr o ymatebion i'r ymgynghoriad | **53** |
| **Atodiad 4:** Rhestr o'r dystiolaeth lafar a dderbyniwyd | **55** |

**Aelodau'r Pwyllgor**

---

| | | |
|---|---|---|
| Huw Lewis (Cadeirydd) | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Peter Black | Y Democratiaid Rhyddfrydol | Gorllewin De Cymru |
| Mark Isherwood | Plaid Geidwadol Cymru | Gogledd Cymru |
| Sandy Mewies | Llafur | Delyn |
| Janet Ryder | Plaid Cymru | Gogledd Cymru |

**Crynodeb**

---

Mae casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diogelwch Tân Domestig fel a ganlyn:

- Cytunwn, o ran egwyddor, y dylai cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a ddynodwyd o fewn y Gorchymyn arfaethedig gael ei roi i'r Cynulliad.

- Yr ydym yn fodlon gyda chwmpas y Gorchymyn arfaethedig fel y drafftiwyd ef, ond dymunwn gofnodi ein dymuniad bod Mesurau yn y dyfodol yn cael eu seilio ar dystiolaeth gadarn ac yn ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd mewn perthynas â chwmpas y Gorchymyn arfaethedig.

- Yr ydym yn argymell bod y Gorchymyn arfaethedig yn cael ei ddiwygio er mwyn tynnu'r darpariaethau dehongli ar gyfer y termau 'mangreoedd preswyl newydd' a 'system taenellu', ac y dylai darpariaethau dehongli priodol gael eu hystyried fel rhan o unrhyw Fesur(au) yn y dyfodol.

  Fodd bynnag, os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn cytuno â'r argymhelliad hwn, mae'n safbwyntiau ar y darpariaethau dehongli unigol fel a ganlyn:

  - Mewn cysylltiad â'r term 'mangreoedd preswyl newydd', ystyriwn fod y term fel y darperir ar ei gyfer yn gyfredol yn y Gorchymyn arfaethedig yn ddigon amlwg ac felly yr ydym yn fodlon gyda'r term hwn a'r dehongliad ohono.

  - Mewn perthynas â'r term 'system taenellu', fe'n perswadiwyd gan y dystiolaeth a dderbyniwyd gennym y dylai'r term hwn gael ei ddiwygio ac ystyried y byddai 'system ddiffodd tân awtomatig' yn derm mwy priodol, ac felly argymhellwn hwn.

  - Mewn perthynas â chynnwys cyfeiriad at y Safon Brydeinig 9251:2005 ar wyneb y Gorchymyn arfaethedig, yr ydym yn derbyn dadl yr Aelod sy'n gyfrifol y gallai cynnwys cyfeiriad o'r fath effeithio'n andwyol ar allu'r Cynulliad yn y dyfodol i ddeddfu yn y maes hwn pe bai'r safon honno'n cael ei diwygio, ac o'r herwydd credwn y byddai cyfeiriad at y safon Brydeinig berthnasol yn fwy priodol i gael ymdriniaeth mewn deddfwriaeth sy'n deillio o'r Gorchymyn arfaethedig. Felly yr ydym yn fodlon nad yw'r Gorchymyn arfaethedig yn cyfeirio o gwbl at y Safon Brydeinig 9251:2005.

- Argymhellwn fod paragraff 35 o'r Memorandwm Esboniadol yn cael ei ail-eirio i wneud yn eglur ystod y term 'addasu'n sylweddol' mewn cysylltiad â mangreoedd preswyl presennol.

- Fe nodwn y dystiolaeth a dderbyniwyd ynglŷn â phwysigrwydd cynnal a chadw a gorfodi systemau taenellu mewn mangreoedd preswyl newydd, ond cytunwn gyda'r Aelod sy'n gyfrifol y dylai'r manylion hyn fod yn faterion ar gyfer Mesurau yn y dyfodol.

- Ystyriwn fod darpariaeth cyflenwad a phwysau digonol o ddŵr yn fanylder a ddylai gael sylw mewn Mesurau yn y dyfodol.

- Ystyriwn y bydd unrhyw bwyllgor ar y Mesur a sefydlwyd i gyflwyno adroddiad ar unrhyw Fesur yn y dyfodol sy'n deillio o'r Gorchymyn arfaethedig yn archwilio goblygiadau cost y Mesur hwnnw'n llawn, ac felly, nid ydym yn ystyried fod hwn yn fater i'w ystyried ar gyfer y Gorchymyn arfaethedig.

## 1. Cyflwyniad

*Cefndir*

1. Ar 21 Chwefror 2008, gosododd Ann Jones AC, yr Aelod sy'n gyfrifol, y *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 7) 2008* ('y Gorchymyn arfaethedig') a'r Memorandwm Esboniadol yn unol â Rheolau Sefydlog 22.13 - 22.14. Mae copïau o'r dogfennau hyn ynghlwm yn Atodiad 1.

2. Ar 26 Chwefror 2008, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Gorchymyn arfaethedig i bwyllgor i gael ei ystyried yn fanwl, yn unol â Rheol Sefydlog 22.16.

3. Yn dilyn penderfyniad yn y cyfarfod llawn ar 26 Chwefror 2008, sefydlwyd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig Diogelwch Tân Domestig ('y Pwyllgor'), yn unol â Rheol Sefydlog 21, i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Gorchymyn arfaethedig erbyn 13 Mehefin 2008[1] fan bellaf.

*Cwmpas y Craffu gan y Pwyllgor*

4. Yn ein cyfarfod cyntaf ar 12 Mawrth 2008, fe wnaethom gytuno ar gwmpas y gwaith craffu, fel y nodir isod:

i. Penderfynu a ddylid rhoi egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig, h.y. cymhwysedd deddfwriaethol, fel y nodir ym Mater 11.1, i'r Cynulliad; a

ii. Phenderfynu a ydyw'r Gorchymyn arfaethedig yn darparu fframwaith priodol ar gyfer rhoi'r cynigion o ran polisi diogelwch tân yn y cartref ar waith. Yn benodol, a ydyw telerau'r Gorchymyn arfaethedig wedi'u diffinio'n rhy eang neu'n rhy gyfyng.

*Tystiolaeth*

5. Bu inni gyhoeddi galwad gyffredinol am dystiolaeth a gwahodd sefydliadau allweddol ym maes diogelwch tân domestig i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig fel sail i'n gwaith. Mae copi o'n llythyr ymgynghori yn amgaeedig yn Atodiad 2. Mae rhestr o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn amgaeedig yn Atodiad 3.

6. Derbyniasom dystiolaeth lafar gan nifer o dystion, ac fe welir manylion y rhain yn Atodiad 4.

[1] Y dyddiad terfyn ar gyfer cyflwyno adroddiad a osodwyd gan y Pwyllgor Busnes

7. O dan Reol Sefydlog 22.21, wrth baratoi ein hadroddiad, rhaid i ni gyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, gymryd i ystyriaeth unrhyw argymhellion ar y Gorchymyn arfaethedig gan:

(i) unrhyw un arall o bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru; ac

(ii) unrhyw bwyllgor Tŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi neu unrhyw gydbwyllgor i'r ddau Dŷ Seneddol.

Nid oes unrhyw argymhellion o'r fath wedi'u gwneud mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig.

8. Mae'r adroddiad a'r argymhellion canlynol yn nodi'r casgliadau y daethom iddynt ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd gennym yn ystod ein gwaith.

## 2. Egwyddor y Gorchymyn Arfaethedig

---

*Cefndir*

9. Diben y Gorchymyn arfaethedig yw diwygio Rhan 1 o Atodlen 5 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ('y Ddeddf 2006') i roi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad mewn perthynas â diogelwch tân domestig, trwy fewnosod mater newydd i mewn i Faes 11 (Tai) yr Atodlen honno:

*Mater 11.1*

Darpariaeth ar gyfer ac mewn perthynas â gofynion bod system taenellu tân yn cael ei gosod mewn mangreoedd preswyl newydd.

*Dehongli'r Mater hwn*

Golyga "mangreoedd preswyl newydd" –

(a) mangreoedd a adeiledir at ddibenion preswyl;

(b) mangreoedd a drosir at ddibenion preswyl

(c) mangreoedd a drosir i'w defnyddio'n un breswylfa drwy isrannu'n ffisegol un neu fwy fangre breswyl bresennol; a

(d) mangreoedd a drosir i'w defnyddio'n un breswylfa drwy ymgorffori'n ffisegol fwy nag un fangre breswyl bresennol.

Mae "system taenellu" yn cael ei ddiffinio fel unrhyw system osod awtomatig y bwriedir iddi ddiffodd, rheoli neu gyfyngu tanau trwy gyfrwng dŵr sy'n cael ei yrru o dan bwysau drwy bibau a phennau chwistrellu sy'n gweithredu pan fydd tymheredd a bennwyd ymlaen llaw yn cael ei gyrraedd.

10. Bydd rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad gan y Gorchymyn arfaethedig yn galluogi'r Aelod sy'n gyfrifol, Llywodraeth y Cynulliad, pwyllgorau'r Cynulliad neu Aelodau unigol i gyflwyno cynigion ar gyfer deddfwriaeth, ar ffurf Mesurau'r Cynulliad, o fewn cwmpas Mater 11.1.

*Memorandwm Esboniadol*[2]

11. Yn y Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gyda'r Gorchymyn arfaethedig, mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn nodi:

> "the objective of the proposed LCO (and the subsequent Measure) is to reduce the incidence of death and injury from fires in new build

---

[2] Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig Aelod: Diogelwch Tân Domestig – Memorandwm Esboniadol Drafft

> housing in Wales. This is to be achieved through a requirement for fire sprinkler systems to be fitted in all new residential premises."[3]

Mae'n hi'n parhau:

> "This is seen as a preventative measure so that people can get out of their homes in the event of a fire occurring. It will also reduce the risk to fire fighters who are called to deal with domestic fires."[4]

12. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn manylu ar fanteision gosod systemau taenellu tân gan ddweud:

> "Dros y blynyddoedd diwethaf, cafwyd cydnabyddiaeth gynyddol i'w defnyddio fel ffordd o gyfrannu at ddiogelu bywyd, a gydnabyddir erbyn hyn yng nghanllawiau presennol y DU ar y Rheoliadau Adeiladu. (…) Mae'r dystiolaeth sydd wedi'i chasglu ledled y byd yn dangos bod (…) pobl yn yr ystafell lle tarddodd y tân wedi goroesi am fod y system daenellu wedi bod yn effeithiol (…) Mae'r dystiolaeth yn dangos hefyd nad oes bywydau wedi'u colli yn y DU oherwydd tân mewn adeiladau lle'r oedd systemau taenellu domestig wedi'u gosod." [5]

13. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi bod adroddiad y Gweithgor Diogelwch Tân Cymunedol[6] wedi argymell y dylai'r Cynulliad "addasu ei Ofynion Ansawdd Datblygu fel bod pob tŷ cymdeithasol newydd yng Nghymru â systemau taenellu tân domestig wedi'u gosod fel rhan o'u hadeiladwaith a (…) edrych ar atgyfnerthu'r gofyn am daenellwyr mewn ysgolion, neuaddau preswyl myfyrwyr, cartrefi nyrsys a chartrefi preswyl newydd."[7]

*Tystiolaeth gan ymgyngoreion*

14. Yr oedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd, mewn tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar, yn mynegi cefnogaeth o ran egwyddor fod cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â diogelwch tân yn y cartref yn cael ei drosglwyddo i'r Cynulliad.[8]

15. Yr oedd y Gwasanaethau Tân ac Achub o'r farn y gallai gosod taenellwyr dŵr yn eang wella diogelwch pobl Cymru. Dywedasant:

---

[3] Memorandwm Esboniadol Drafft, paragraff 9
[4] *Ibid.*
[5] *Ibid., p*aragraff 22-23
[6] *Wired for Safety*, Adroddiad y Gweithgor Diogelwch Tân Cymunedol, Hydref 2001
[7] Memorandwm Esboniadol Drafft, paragraff 15
[8] Yn cynnwys y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, y Gwasanaethau Tân ac Achub, Undeb y Brigadau Tân, cynrychiolwyr y diwydiant taenellwyr tân, Cymdeithas y Diwydiant Tân, the Residential Sprinkler Associates, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Yswiriwyr Prydain, y Sefydliad Ymchwil Adeiladu, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot.

"people do not generally die as a result of fire in their places of work, or in hotels, pubs, restaurants or cinemas; people die in their own homes, and this legislation will address that issue".[9]

16. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nododd y Gwasanaethau Tân ac Achub rai o brif fanteision taenellwyr megis:

- Achub bywydau - nid oes marwolaeth oherwydd tân erioed wedi digwydd mewn adeilad domestig sydd â thaenellwyr drwyddo yn y Deyrnas Unedig;
- Gwarchod adeiladau - amcangyfrifir fod colledion i adeiladu a ddiogelwyd gyda thaenellwyr yn un rhan o ddeg o'r colledion mewn adeiladau nad ydynt wedi'u gwarchod; a
- Gwarchod diffoddwyr tân – mae'r amodau i ddiffoddwyr tân sy'n mynd i mewn i adeilad sydd ar dân yn llawer llai peryglus ac anodd na phe bai'r tân wedi datblygu fel arall.[10]

17. Yr oedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cefnogi camau i helpu i wella ymhellach ddiogelwch tân yn y cartref ac yn cydnabod manteision taenellwyr i ostwng y gyfradd marwolaethau sy'n gysylltiedig â thân a difrod i eiddo a achosir gan dân.[11]

18. Disgrifiodd Undeb y Frigâd Dân "adeilad domestig oedd yn cynnwys taenellwyr trwyddo fel adeilad oedd yn cyfateb i dŷ oedd â diffoddwr tân ym mhob ystafell ynddo 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos". [12] Yr oedd y 'National Fire Sprinkler Network' yn cyflwyno pwynt tebyg, gan gyfeirio at fanteision taenellwyr, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig a phellennig ble mae amser cyrraedd ar gyfer y gwasanaethau tân ac achub yn gyffredinol yn hwy.

19. Nododd rhai ymatebwyr, gan fod materion ynghylch diogelwch tân sy'n effeithio pobl Cymru yn wahanol i'r rhai sy'n effeithio rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, fe fyddai'n briodol i Gymru pe gallai benderfynu ar y mesur angenrheidiol i gyflawni ei hanghenion a'i hamcanion ei hun o ran diogelwch tân.[13]

20. Ymhellach, tynnwyd sylw gan y British Automatic Fire Sprinkler Association at ymchwil sydd wedi nodi fod y rhai sy'n marw mewn tanau yng Nghymru o fand oedran cul ac o grŵp economaidd-gymdeithasol sydd wedi'i ddiffinio'n eglur. Dywedodd y Gymdeithas:

---

[9] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 15/04/08, paragraff 15
[10] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS4
[11] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS13
[12] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS5
[13] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS6 a DFS7

"It would appear that other measures such as provision of smoke alarms and community education have failed to impact on this group. We therefore condur with the views expressed by the fire and rescue services that the only way to reduce the rate of fire deaths is through the wider use of sprinkler systems." [14]

21. Mynegwyd barn debyg gan y National Fire Sprinkler Network.[15]

22. Yr oedd nifer o ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig, sef Cartrefi Cymunedol Cymru, y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai a Chydffederasiwn Diwydiant ym Mhrydain a'r Gymdeithas Landlordiaid Genedlaethol.

23. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, yr oedd y Gymdeithas Landlordiaid Genedlaethol o'r farn fod y Gorchymyn arfaethedig:

"has the potential of producing an inflexible, 'one size fits all' regime for new residential premises that requires no real consideration of what fire risks actually exist. The Order (as it currently stands) had the potential to be seen as a panacea for achieving fire safety to the exclusion of other, more tailored solutions, that might be more effective for particular circumstances."[16]

24. Fe aethant ymlaen i nodi, wrth groesawu o ran egwyddor gamau sy'n gosod hawliau a chyfrifoldebau am ddiogelwch tân yn deg ac yn flaenllaw er mwyn sicrhau fod bywydau'n cael eu hachub, yr oeddent yn parhau i fod heb eu darbwyllo bod y Gorchymyn hwn yn cyflawni hyn yn briodol'. [17]

25. Nododd y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a Chydffederasiwn Diwydiant Prydain eu bod yn fodlon fod y darpariaethau yn y Rheoliadau Adeiladu cyfredol yn 'ddigon cadarn yn nhermau bod yn arf ataliol rhag tân mewn cartrefi newydd a'r peryglon cysylltiedig sydd yn aml yn dilyn'.[18]

26. Dywedodd Tai Cymuned Cymru eu bod:

"remain to be convinced by the evidence that the introduction of residential sprinkler systems in all new homes is the most effective way of reducing the incidence of death and injury from fires in new build housing." [19]

27. Yr oeddent yn teimlo, yn hytrach na chanolbwyntio'r holl adnoddau ar daenellwyr tân,

[14] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS6
[15] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS7
[16] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS17
[17] *Ibid.*
[18] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS15
[19] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS9

> "efforts would be better spent on enabling the issues of fire safety to be considered alongside other aspects of safety in the home."[20]

28. Yr oeddent yn dadlau y byddai unrhyw newidiadau i wella diogelwch, yn cynnwys diogelwch tân, ar gyfer preswylwyr yn holl gartrefi Cymru yn fwy effeithiol gyda throsglwyddo pwerau i'r Cynulliad trwy'r Rheoliadau Adeiladu.[21]

29. Yr oedd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ('y Gweinidog') yn rhannu'r farn hon, ac yn awgrymu "y byddai nod y Gorchymyn arfaethedig hwn efallai yn cael ei ymdrin yn well trwy newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu, sef y brif ddeddfwriaeth ar gyfer gosod safonau adeiladu". Esboniodd bod "cyfrifoldeb am atal tanau, canfod tanau a dulliau dianc mewn adeiladau newydd wedi'i gynnwys yn y Rheoliadau Adeiladu ar gyfer Cymru a Lloegr". [22]

30. Cyfeiriodd y Gweinidog at yr ymrwymiad a wnaethpwyd yn *Cymru'n Un* y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn dilyn mater trosglwyddo cyfrifoldeb am y Rheoliadau Adeiladu a rhoddodd wybod i ni ei bod yn gobeithio y byddai'r trosglwyddiad hwn yn digwydd yn ystod 2008. [23]

31. Fodd bynnag, aeth ymlaen, yn absenoldeb unrhyw gytundeb i drosglwyddo i Weinidogion Cymru bwerau gweithredol i wneud a diwygio Rheoliadau Adeiladu, ystyriodd ei bod yn briodol cefnogi egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig. [24]

32. Mewn perthynas â'r amseriadau oedd yn gysylltiedig â diwygio'r Rheoliadau Adeiladu unwaith eu bod wedi'u datganoli, nododd cynghorydd polisi'r Gweinidog y gallai 'mesur cymharol syml (…) gymryd tua dwy flynedd', a 'gyda golwg ar ran L o'r Rheoliadau Adeiladu, sy'n cynnwys defnyddio ynni'n effeithiol, mae rhai o'r adolygiadau wedi cymryd tair blynedd neu fwy'.[25]

33. Yr oedd yr amseriadau oedd yn gysylltiedig â diwygio'r Rheoliadau Adeiladu yn achosi pryder i'r Gwasanaethau Tân ac Achub, a awgrymodd y gall fod angen o leiaf bedair blynedd rhwng cychwyn y broses ymgynghori ar y gwelliannau a all fod yn angenrheidiol a'u gweithredu.[26]

34. Yr oedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wrth gwestiynu priodoldeb y Rheoliadau Adeiladu, hefyd yn codi mater amseru:

> "Some of the difficulty with the building regulations (…) is that there is obviously some concern about whether or not the building

[20] *Ibid.*
[21] *Ibid.*
[22] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS12
[23] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 29/04/08, paragraff 166-168
[24] Tystiolaeth ysgrifenedig DFS12
[25] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 29/04/08, paragraff 182
[26] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 15/04/08, paragraff 8

regulations would come in a timely manner for the Assembly to deal with the issue, and rather drag out the time frame."[27]

35. Fe aethant ymlaen:

"in terms of expediency, the LCO would be a much quicker route to obtain the powers that you are looking for."[28]

36. Ymhellach i fater amseru mewn cysylltiad â'r Rheoliadau Adeiladu, cwestiynodd y Gweinidog rinwedd cael y Gorchymyn arfaethedig a'r Rheoliadau Adeiladu mewn grym ar yr un pryd, gan awgrymu y gallai darpariaethau'r Gorchymyn arfaethedig fod yn gymwys uwchlaw a thu hwnt i'r rhai a gynhwysir yn y Rheoliadau Adeiladu, ac felly, gallai ganslo unrhyw arbedion cydadferol a allai gael eu gwneud yn dilyn gosod taenellwyr, megis mwy o ryddid o ran cynllun adeiladau.[29]

37. Hefyd cododd CLl LC y pryder "os ydych yn defnyddio'r rheoliadau adeiladu, y byddai posibilrwydd o wanhau'r gofynion gyda golwg ar fanylion yr ydych yn edrych arnynt yn y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol." [30]

38. Mabwysiadodd dau o'r rhai a ymatebodd, sef Dŵr Cymru a'r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai, safle niwtral ar rinweddau'r Gorchymyn arfaethedig, er bod Dŵr Cymru yn nodi yn eu tystiolaeth:

"[we] accept that the installation of fire sprinkler systems in residential premises on a large scale will result in the reduction in deaths due to fires at those premises and wants to give all the support it can to their installation".[31]

39. Wrth gefnogi egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig, mynegodd rhai tystion bryder a ddylai gosod taenellwyr tân mewn mangreoedd newydd neu fangreoedd a droswyd ddigwydd ar draul egwyddorion cynllunio diogelwch tân mwy traddodiadol.[32] Pwysleisiodd nifer o dystion hefyd bwysigrwydd gosod yn gywir a chynnal a chadw'n briodol systemau taenellu.[33] Trafodir y materion hyn yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

---

[27] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 06/05/08, paragraff 6
[28] *Ibid.*, paragraff 7
[29] RoP, Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 29/04/08, paragraff 164
[30] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 06/05/08, paragraff 10
[31] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS 11
[32] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS 16; RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 06/05/08, paragraff 73; Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS 8. RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 22/04/08 paragraff 28-30
[33] Yn cynnwys: Cymdeithas yr Yswiriwyr Prydain, (ABI), tystiolaeth ysgrifenedig, DFS 14. Dŵr Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, DFS 11. CLLLC, tystiolaeth ysgrifenedig, DFS 13

*Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol*

40. Wrth ymateb i gwestiwn a oedd y Rheoliadau Adeiladu yn llwybr mwy priodol ar gyfer amcan y polisi ac a allai'r Gorchymyn arfaethedig gael ei hepgor yng ngoleuni trosglwyddo'r Rheoliadau yn y dyfodol, dywedodd Ann Jones AC:

> "(…) building regulations are not presently devolved to the Assembly. We are assuming they will be in the autumn of 2008 or even beyond then. Once those powers are devolved, they will provide Welsh Ministers with the powers to incorporate a requirement in the building regulations, but it will not compel the Ministers to do it. (…) That would depend on their programme or on the way in which they would then take the building regulations forward." [34]

41. Aeth ymlaen i ddweud:

> "It is my view that it would be better for new residential premises to be constructed with sprinklers as a result of my proposed LCO, rather than having new homes built without such protection while we wait for building regulations to be devolved to us." [35]

42. Mewn ymateb i'r cwestiwn am rinweddau'r Gorchymyn arfaethedig a'r Rheoliadau Adeiladu mewn grym ar yr un pryd, dywedodd Ann Jones AC:

> "If building regulations were devolved before a Measure could be made under my LCO, I could then ask to place a duty on Welsh Ministers to include provisions for requiring the installation of sprinkler systems into building regulations (…)."[36]

43. Ymhellach yn hyn o beth, dywedodd hi ei bod yn gobeithio y byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn cryfhau ac yn gyflenwol i'r rheoliadau adeiladu, unwaith y bônt wedi'u datganoli, yn hytrach nag yn eu dyblygu neu'n eu dirymu.[37]

*Ein safbwynt ni*

44. Yr ydym yn nodi'r gefnogaeth eang sy'n bod i'r Gorchymyn arfaethedig a'r rhesymau a gyflwynwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol am geisio'r cymhwysedd deddfwriaethol hwn. Ystyriwn y bydd cyflwyno taenellwyr tân mewn 'mangreoedd preswyl newydd', fel y nodwyd yn y Gorchymyn arfaethedig, yn cael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch tân yng Nghymru. Felly, **'yr ydym yn cytuno, o ran egwyddor, y dylai cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a nodwyd o fewn y Gorchymyn arfaethedig gael ei roi i'r Cynulliad**

---

[34] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 06/05/08, paragraff 136
[35] *Ibid.*
[36] *Ibid.*, paragraff 142
[37] *Ibid.*, paragraff 143

45. Wrth ystyried a yw'r Gorchymyn arfaethedig wedi'i lunio'n rhy eang neu'n rhy gyfyng, yr ydym wedi tynnu sylw at rai problemau'n ymwneud â drafftio Materion penodol a rhai materion eraill. Mae paragraffau 46 - 177 yr adroddiad hwn yn ystyried y materion hyn.

## 3. Cwmpas y Gorchymyn Arfaethedig

---

*Cefndir*

46. Yn y Memorandwm Esboniadol, nododd yr Aelod sy'n gyfrifol gwmpas y Gorchymyn arfaethedig fel un sy'n ymestyn i gynnwys y canlynol:

- "Mangreoedd preswyl a adeiledir o'r newydd yn cynnwys fflatiau/rhandai.
- Mangreoedd preswyl presennol sy'n cael eu haddasu'n sylweddol, yn cynnwys trosi tai sengl i Dai Amlfeddiannaeth, a throsi mangreoedd sengl yn fflatiau
- Adeiladau presennol a gaiff eu trosi o ddibenion amhreswyl i'w defnyddio at ddibenion preswyl (e.e. swyddfeydd a drosir yn fflatiau)
- Mathau eraill o newid defnydd o ddibenion amhreswyl i ddibenion preswyl, lle bydd gwaith trosi'n digwydd." [38]

47. Cadarnhaodd hefyd:

> "Fyddai gosod systemau taenellu'n ôl-syllol mewn mangreoedd preswyl sydd eisoes yn bod ddim yn cael ei gynnwys."[39]

48. Gofynasom i ymgyngoreion a thystion am eu barn a yw cwmpas y Gorchymyn arfaethedig wedi'i lunio'n rhy eang neu rhy gyfyng.

*Tystiolaeth gan ymgyngoreion*

49. Yr oedd y Gwasanaeth Tân ac Achub, Cymdeithas y Diwydiant Tân ac Undeb y Brigadau Tân yn fodlon gyda chwmpas y Gorchymyn arfaethedig fel yr oedd wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd. Pan holwyd hwy a ddylai cwmpas y Gorchymyn gael ei ehangu, yr oeddent o'r farn:

> "If you go for too much, you will achieve nothing; you need to be sure of what it is that you are trying to achieve. We are sure that we are trying to achieve [fire safety] in the home. (…) ideally, we would like to see every building fitted with a sprinkler, but that is too big, and you would not achieve it."[40]

---

[38] Memorandwm Esboniadol Drafft, paragraff 35
[39] *Ibid.*, paragraff 10
[40] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 15/04/08, paragraff 12

50. Aethant ymlaen i ddweud:

> "Therefore, we believe that the LCO is pitched about right for what it is trying to achieve. If you do not start somewhere, you will never start. We are quite sure that this is the ideal starting point that will allow us to effect a difference."[41]

51. Yr oedd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru hefyd yn fodlon gyda chwmpas y Gorchymyn arfaethedig, gan ddweud:

> "we consider that the order has been well constructed and will ensure effective implementation if enacted."[42]

52. Mewn cyferbyniad i hyn, yr oedd y Gweinidog yn dadlau dros y "pwerau ehangaf posibl i ddarparu hyblygrwydd", gan felly alluogi'r Cynulliad i "edrych ar gulhau [cwmpas] yn y dyfodol gyda Mesur (…)."[43]

53. Yn groes i hyn yr oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot o'r farn bod 'telerau'r Gorchymyn arfaethedig wedi'u llunio'n rhy eang' ac awgrymodd yn lle hynny 'y dylai'r gofyniad i osod systemau taenellu neu beidio, fod yn seiliedig yn unig ar risg.'[44]

54. Mewn cysylltiad â hyn, derbyniasom hefyd dystiolaeth gan rai sefydliadau oedd yn gofyn i gwmpas y Gorchymyn arfaethedig gael ei addasu i dargedu'n benodol y grwpiau hynny mewn cymdeithas a ddynodwyd i fod 'mewn perygl' arbennig o farwolaeth neu anaf mewn tân yn eu cartrefi.

55. Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru yn arbennig:

> "It is important to weigh-up the merits of installing sprinklers in all new homes against a more targeted approach which seeks to install sprinklers in homes housing the most vulnerable in society, in order to meet their needs first. These might include nursing homes, sheltered housing, housing designed to meet the needs of people requiring support, Houses in Multiple Occupation, homes for people with limited mobility who might find it hard to escape from a fire quickly etc." [45]

56. Yr oedd Cartrefi Cymunedol Cymru hefyd yn credu mai'r tai mwyaf newydd sy'n debygol o fod y mwyaf galluog i ddarparu diogelwch mewn tân fel y mae:

---

[41] *Ibid.*, paragraff 13
[42] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS3
[43] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 29/04/08, paragraff 156
[44]Tystiolaeth Ysgrifenedig, DFS19
[45] Tystiolaeth ysgrifeneidg, DFS9

"(…) built to much higher standards than older housing, in terms of the regulations controlling design, the combustibility of building materials and means of escape."[46]

57. Yr oeddent yn teimlo bod tai hŷn yn creu mwy o risg ac y gallai fod yn fwy buddiol i ystyried cynigion i fynd i'r afael â diogelwch tân yn y cartrefi hyn.

58. Dylid nodi bod y farn hon wedi'i gwrth-ddweud gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu:

"I do not necessarily subscribe to the theory that modern properties perform any better than older properties. In many ways, some of the older and more traditionally solid-walled properties would probably perform better than newer properties, because of their inherent thermal mass: they are built of stone and it is only the finishes and the likes that are likely to combust."[47]

59. Ar gwestiwn targedu'r Gorchymyn arfaethedig, dywedodd y Gweinidog:

"(…) we would prefer to see the broadest possible powers around fire safety devolved (…). We feel it would then be for the Measure to look at specific targeting."[48]

60. Aeth ymlaen:

"(…) if the Order and subsequent Measures were targeted at new general housing, for example, the occupant would not be known at the time of construction, and so you could not target effectively in that context."[49]

61. Mynegodd Undeb y Brigadau Tân rywfaint o gydymdeimlad at yr awgrym o dargedu'r Gorchymyn arfaethedig at eiddo hŷn neu bersonau bregus, ond daeth i'r casgliad:

"the main aim is to get sprinklers into properties and the easiest way to do that is to get them installed in new-build properties and hopefully the drip-drip effect will work its way through. (…) By trying to expand the LCO, you run the risk of the whole of the LCO failing"[50]

62. Cytunodd Cymdeithas y Diwydiant Tân[51] a'r Sefydliad Ymchwil Adeiladau â'r pwynt hwn, gyda'r Sefydliad yn dweud:

---

46 *Ibid.*
47 RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 06/05/08, paragraff 83
48 RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 29/04/08, paragraff 158
49 *Ibid.*
50 RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 22/04/08, paragraff 34
51 *Ibid.*, paragraff 51

> "The most important thing in changing the performance of any building is to make a start somewhere, and the new-build market is the obvious place to start because it is easy to integrate such changes into the building fabric."[52]

63. Mewn cysylltiad â chwmpas y Gorchymyn arfaethedig, derbyniasom dystiolaeth gan y Gymdeithas Diwydiant Tân oedd yn awgrymu:

> "While the retrospective fitting of fire sprinklers is not covered, consideration could be given to the 'bringing up to fire code' of houses when they are sold as is the case in some parts of the USA. If this was to be the case, then the rate at which the fire safety of Welsh dwellings was improved would increase. In this situation it would not only be sprinklers that might be installed but smoke alarms, fire doors, COP detectors and other relevant systems."[53]

*Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n Gyfrifol*

64. Pan holwyd hi ynglŷn â chwmpas cymharol gul y Gorchymyn arfaethedig ac a oedd hynny'n sicrhau y byddai'n effeithiol, dywedodd Ann Jones AC:

> "In looking at how we form our legislation, we must ensure that it is effective. For it to be effective, it must concentrate on certain areas, without taking too broad-brush an approach… we must be realistic about what we can achieve, and I would rather this be achieved in the area that we are looking at now, than for the LCO to be widened and us to lose the ability to put sprinklers into new home build." [54]

65. Cadarnhaodd hi hefyd ei bod yn fodlon y byddai cwmpas y Gorchymyn arfaethedig yn darparu ar gyfer y grwpiau o bobl mwyaf bregus mewn cymdeithas:

> "By targeting all new home build, we will cover a range of the most vulnerable (…). We are seeing more and more estates being built with shared occupancy housing. In the private sector, you have an element of affordable housing, and social housing on estates. So targeting all new home build will cover it.

66. Aeth ymlaen:

> "Housing associations will be looking at the elderly, the disabled or the impaired, where there are social contracts with housing associations and with local authorities. Those who have bought

---

[52] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 06/05/08, paragraff 80
[53] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS8
[54] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 08/04/08, paragraff 20, 26

homes to let privately may rent to young people. I think that we will cover all of those groups."[55]

67. Wrth ymateb i'r cwestiwn a oedd y dystiolaeth a dderbyniwyd eisoes gan y Pwyllgor wedi addasu ei barn ar gwmpas y Gorchymyn arfaethedig, dywedodd Ann Jones AC:

> "I took the decision to keep the LCO narrow and focussed as an opportunity to achieve the goal of protecting new-build homes with sprinkler systems. (…) I did this to ensure that we could make progress."[56]

68. Pan holwyd hi a ddylai cwmpas y Gorchymyn arfaethedig gael ei ddiwygio er mwyn targedu ei effaith, dywedodd:

> "In an ideal world, I would say yes (…). However, practically and pragmatically, I do not believe that it could happen. (…) I do not know how you would do it in older properties, other than through registered social landlords. It puts an unfair disadvantage on registered social landlords if their properties must be sprinklered (…) because the private home owner does not have to do that (…).[57]

69. Aeth ymlaen:

> (…) I am sure that people will see that, if they move into a new property, or they have family moving into a new property, where sprinkler systems have been installed, they will look at doing something similar in their own properties if they can."[58]

70. Wrth gloi, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol am gynnig y Mesur, er ei bod yn hapus i ystyried unrhyw argymhellion neu safbwyntiau sydd gan y Pwyllgor ar gwmpas y Gorchymyn arfaethedig, credai "ar hyn o bryd, mae cwmpas y GCD yn ddealladwy [ac] mae'r egwyddor tu cefn iddo yn rhywbeth y gellir ei gyflawni."[59]

*Ein safbwynt ni*

71. Nodwn dystiolaeth y Gweinidog sy'n galw am i gwmpas y Gorchymyn arfaethedig fod mor eang ag sy'n bosibl i alluogi cymaint o hyblygrwydd ag sy'n bosibl ar gyfer Mesurau'r dyfodol.

72. Nodwn hefyd y dystiolaeth yr ydym wedi'i derbyn mewn perthynas â thargedu effaith y Gorchymyn arfaethedig tuag at fathau penodol o eiddo neu grwpiau penodol o bobl.

---

[55] *Ibid.*, paragraff 36
[56] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 06/05/08, paragraff 138
[57] *Ibid.*, paragraff 151-152
[58] *Ibid.*, paragraff 152
[59] *Ibid.*, paragraff 138

73. Fodd bynnag, cawn ein perswadio gan resymau'r Aelod sy'n gyfrifol dros gadw cwmpas y Gorchymyn arfaethedig yn gymharol gyfyng a chanolog, er mwyn gwneud cynnydd â gweithredu'r polisi.

74. Yn hyn o beth, cytunwn gyda'r dystiolaeth oddi wrth y Gwasanaethau Tân ac Achub y bydd effaith y Gorchymyn arfaethedig yn gynyddol, ac o'r herwydd, ystyriwn y bydd y Gorchymyn arfaethedig yn ychwanegiad ystyrlon at y camau diogelwch eraill sydd eisoes ar waith.

75. Ystyriwn y gallai cynnwys cyfeiriadau penodol at eiddo arbennig neu grwpiau arbennig o bobl sydd i'w targedu gan y Gorchymyn arfaethedig gyfyngu ei effeithiolrwydd. Ystyriwn ei bod yn fwy priodol i unrhyw fanylion o'r fath gael eu cynnwys mewn Mesurau yn y dyfodol yn hytrach nag yn y Gorchymyn arfaethedig hwn.

76. Ar y sail hon, **yr ydym yn fodlon gyda chwmpas y Gorchymyn arfaethedig fel y drafftiwyd ef ond dymunwn gofnodi ein dymuniad y bydd Mesurau yn y dyfodol yn cael eu seilio ar dystiolaeth gadarn ac yn ystyried y dystiolaeth yr ydym wedi'i derbyn mewn cysylltiad â chwmpas y Gorchymyn arfaethedig**.

## 4. Darpariaethau Dehongli yn y Gorchymyn Arfaethedig

---

### Darpariaethau dehongli- cyffredinol

*Cefndir*

77. Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys darpariaethau dehongli ar gyfer y termau "mangreoedd preswyl newydd" a "system taenellu", a ddefnyddir ym Mater 11.1.

78. Yr oedd ein hystyriaeth o'r mater hwn mewn dwy ran. Yn gyntaf, mater cyffredinol a ddylai darpariaethau dehongli gael eu cynnwys yn y Gorchymyn arfaethedig ac yn ail, os dylent, a yw'r darpariaethau dehongli a gynhwysir yn y Gorchymyn arfaethedig yn briodol. Mae ein barn ar y ddau bwynt wedi'i nodi ar ddiwedd yr adran hon.

*Tystiolaeth gan ymgyngoreion*

79. Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog, wrth gefnogi egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig y byddai hi'n ffafrio gweld y pwerau ehangaf posibl ynghylch diogelwch tân yn cael eu datganoli i'r Cynulliad. Ar y sail hon, barn y Gweinidog oedd y dylai'r Gorchymyn arfaethedig geisio cymhwysedd deddfwriaethol eang ac y dylai hepgor unrhyw ddiffiniadau, gan adael iddynt hwy gael eu trin yng nghyfnod y Mesur. [60]

80. Yr oedd tystiolaeth arall, fodd bynnag, yn cefnogi cynnwys y dehongliadau yn y Gorchymyn arfaethedig. Cyflwynodd y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru eu barn:

> "unless we are specific at the outset about what we are trying to achieve [by the proposed Order], people will misunderstand it".[61]

81. Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru[62], y Rhwydwaith Chwistrellu Tân Ewropeaidd[63] a Dŵr Cymru[64] mewn tystiolaeth ysgrifenedig eu bod yn credu ei bod yn angenrheidiol gosod ystyr y 'mangreoedd preswyl newydd' a 'system taenellu' yn y Gorchymyn arfaethedig.

82. Yr oedd y 'Residential Sprinkler Associates' yn ystyried y dylai telerau'r Gorchymyn arfaethedig gael eu diffinio'n glir i sicrhau nad yw deddfwriaeth yn cael ei amgylchynu, fel y dywedant yw'r achos ar gyfer

---

[60] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 29/04/08, paragraff 156
[61] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig),15/04/08, paragraff 117
[62] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS3
[63] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS1
[64] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS11

taenellwyr tân mewn rhai mangreoedd manwerthu yn y DU a gwledydd eraill. [65]

83. Yn groes i hyn, fodd bynnag, doedd gan Undeb y Brigadau Tân ddim barn bendant ynglŷn â lle mae'r diffiniadau'n ymddangos - un ai yn y Gorchymyn arfaethedig neu'n cael eu gadael at fanylder Mesur yn y dyfodol - cyn belled bod y prif amcan i gael taenellwyr i mewn i bob eiddo a adeiledir o'r newydd yn cael ei wireddu. [66]

*Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol*

84. Gan ymateb i'r cwestiwn a ddylai'r Gorchymyn arfaethedig gynnwys darpariaethau dehongli, dywedodd Ann Jones AC ei bod hi wedi cynnwys y diffiniadau yn y Gorchymyn arfaethedig mewn ymgais i fod yn agored a thryloyw a'i bod wedi ystyried y byddai hepgor y diffiniadau wedi codi cwestiynau ynglŷn â beth yw cefndir y Gorchymyn arfaethedig a gallai amharu ar ystyriaeth y Gorchymyn arfaethedig yn San Steffan. [67]

85. Awgrymodd hefyd:

> "including the definitions in the Order would be good for the home builders, the water companies, the insurers and for the public, so that they will know exactly what will be expected in years to come".[68]

86. Ymhellach i hyn ac mewn ymateb i awgrym y Gweinidog bod diffiniadau yn cael eu hepgor o'r Gorchymyn arfaethedig er mwyn peidio cyfyngu ar ei gwmpas yn anfwriadol, dywedodd cynghorydd cyfreithiol Ann Jones:

> "In this particular case, the definition helps to widen the scope a bit. (…) If you were to take out the interpretation of 'new residential premises', and it referred only to provision for and in connection with the requirement that a sprinkler system be installed in new residential premises, there would be a danger that people would read it as meaning new build in the sense of a new house or block of flats on a green field site. However, the intention here is to extend that, and make it clear that it includes the conversion to residential use of previously non-residential premises. So, the definition of 'new residential premises' helps to widen the scope from what you would otherwise interpret the phrase to mean.[69]

---

[65] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS10
[66] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 22/04/08, paragraff 69
[67] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 08/04/08, paragraff 147-148 a 150
[68] *Ibid.*, paragraff 148
[69] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 06/05/08, paragraff 201

87. Fe aeth ymlaen:

> "Although I am sure that the Minister's point that, in principle, definitions should be left for Measures where that is at all possible is right, it may be that the Committee will think that, in this particular case, you need to define 'new residential premises', because that is how you make it clear that it extends to conversions of existing buildings."[70]

**Darpariaethau dehongli -** *'mangreoedd preswyl newydd'*

*Cefndir*

88. Mewn perthynas â Mater 11.1, golyga'r term 'mangreoedd preswyl newydd'-

> (a) mangreoedd a adeiladwyd at ddefnydd preswyl;
>
> (b) mangreoedd a drosir at ddibenion preswyl;
>
> (c) mangreoedd a drosir o anheddau sengl yn dai amlfeddiannaeth trwy isrannu ffisegol un neu fwy mangre preswyl sy'n bodoli; a
>
> (d) mangreoedd a drosir o anheddau sengl yn dai amlfeddiannaeth trwy ymgorffori ffisegol fwy nag un mangre preswyl.

*Tystiolaeth gan ymgyngoreion*

89. Derbyniasom dystiolaeth gan nifer o ymatebwyr oedd yn awgrymu bod diffyg eglurder yn ystyr y term 'mangre preswyl newydd'.

90. Yn arbennig, dywedodd y Gweinidog nad oedd yn glir beth oedd y term 'mangreoedd preswyl newydd'. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd:

> "In supporting the principle of this proposed Order I would ask the Committee to look at the draft wording of definitions, in particular new "residential" premises. It is not clear whether the intention is to affect only houses or go wider. The use of 'residential' could include care homes, student accommodation."[71]

91. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, nododd Cartrefi Cymunedol Cymru:

> "(…) if the Assembly proceeds with the Order then it will be important to be specific about the kinds of residential property to be included."[72]

---

[70] *Ibid.*
[71] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS12
[72] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS9

92. Mewn cysylltiad â hyn tynnodd Dŵr Cymru sylw at rai meysydd penodol lle mae angen eglurder pellach er mwyn osgoi dryswch gan ddweud:

> "Does [the proposed Order] include everywhere people reside temporarily or permanently, e.g. hotels, guest houses, hostels, university halls of residence, prisons? Does it include the whole of a building if only part of it is used as a residence, e.g. a public house where the landlord's family lives on the premise and a shop with a flat above? Does it include mobile homes (many of which are merely prefabricated homes without wheels)? Does it apply to the many rural premises that will only have a private source of water supply, often with little pressure and flow?"[73]

93. Hefyd awgrymodd y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai[74], y Rhwydwaith Chwistrellau Tân Ewropeaidd[75] a Chymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid[76] bod graddau'r diffiniad o 'fangreoedd preswyl newydd' yn aneglur.

94. Aeth y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru ac Undeb y Brigadau Tân ymhellach ac awgrymu y dylai'r Gorchymyn arfaethedig adlewyrchu'r Safon Brydeinig ac y dylai'r term 'defnydd domestig' gymryd lle'r term 'mangreoedd preswyl newydd'. [77]

95. Yr oedd y Gwasanaethau Tân ac Achub yn benodol, o'r farn bod defnyddio dull cyson gyda therminoleg yn helpu i waredu unrhyw ddryswch ac awgrymu bod y Gorchymyn arfaethedig yn ael ei adolygu i gynnwys y disgrifiadau canlynol fel y darperir gan y Safon Brydeinig 9251:2005: [78]

> "<u>Domestic Occupancy</u> – individual dwelling for use as a single family unit used or constructed or constructed or adapted to be used wholly; or dwelling houses, individual flats, maisonettes and transportable homes with a maximum individual room size of $40m^2$.
>
> <u>Flow rate</u> – 60 ltr/min through any single sprinkler, or
> 42 ltr/min through each of the two sprinklers operating simultaneously in a single room.
>
> <u>Mains</u> – as above plus at least 25 ltr/min. (BS 9251:2005)"

96. Fel cyferbyniad i hynny, yr oedd y Residential Sprinkler Associates yn ystyried y byddai'r cyfyngiadau oedd yn y diffiniadau yn y Safon Brydeinig 9251:2005 yn ddiangen a galwodd am gael eu hepgor. Nodasant mewn tystiolaeth ysgrifenedig:

---

[73] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS11
[74] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS18
[75] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS1
[76] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS17
[77] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS4 a DFS5
[78] Gweler paragraff 103 am esboniad ar BS9251:2005

"Unfortunately the Standard contains restrictions on room size and building height that were introduced without any supporting evidence and we would therefore contend are inappropriate. In the same vein, sprinkler flow requirements and areas of coverage for sprinklers are specified in the Standard that fly in the face of the Manufacturers' and the Approvals Body's test data and specifications – and we contend that these are inappropriate also. The removal of these unnecessary restrictions will reduce the cost of installation substantially…"[79]

97. Ystyriodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru[80] a'r British Automatic Fire Sprinkler Association[81] bod y diffiniad o 'fangreoedd preswyl newydd' fel y darparwyd yn y Gorchymyn arfaethedig yn glir a'u bod yn fodlon gyda'i gynnwys yn y Gorchymyn arfaethedig.

98. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot yn ei dystiolaeth ysgrifenedig y bydd y Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys anheddau newydd a grëwyd o fewn adeiladau presennol drwy drosi neu isrannu yn ogystal â mangreoedd a adeiledir o'r newydd ac nid oedd yn nodi unrhyw anfodlonrwydd gyda'r diffiniad hwn. [82]

*Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol*

99. Mewn tystiolaeth lafar ymatebodd Ann Jones AC i'r pryderon a godwyd gan dystion eraill am y diffyg eglurder am y term 'mangreoedd preswyl newydd', gan ddweud:

"I consider that the term 'residential' includes new single-dwelling houses and any new building constructed for or converted to residential use. I can see any new-build sheltered housing or care homes as part of the new-build scenario as well as blocks of flats, and within that I would include any new-build student accommodation."[83]

100. Aeth ymlaen:

"We touched on whether caravans or houseboats should be included, and I think that you could use the term 'residential' for them, although obviously not for touring caravans. Static mobile homes rather than caravans could be covered under the residential tag in this LCO."[84]

---

[79] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS10
[80] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS13
[81] RoP(Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 22/04/08, paragraff 234
[82] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS19
[83] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 06/05/08, paragraff 173
[84] *Ibid.*, paragraph 174

101. Ymhellach i hyn, cadarnhaodd cynghorydd cyfreithiol Ann Jones bod:

> "The intention is that [the proposed Order] should be narrow in terms of being limited to new premises, but that the residential side of things – in other words, defining what kinds of properties can be covered – should be as wide as we can make it, so that potentially, it would cover buildings such as residential care homes, colleges, halls of residence (…) and possibly even wider. (…) So, 'residential premises' is a pretty wide definition, which we hope is wide enough to cover anything that one might conceivably want to cover".[85]

**Darpariaethau dehongli -** *'system taenellu'* **a'r Safon Brydeinig 9251:2005**

*Cefndir*

102. Mewn perthynas â Mater 11.1, golyga'r 'system taenellu':

> "unrhyw system osod awtomatig y bwriedir iddi ddiffodd, rheoli neu gyfyngu tanau drwy gyfrwng dŵr sy'n cael ei yrru o dan bwysau drwy bibau a phennau chwistrellu sy'n gweithredu pan fydd tymheredd a bennwyd ymlaen llaw yn cael ei gyrraedd."

103. 'Safon Brydeinig Rhif 9251:2005' yw'r Cod Ymarfer ar y Safon Brydeinig ar hyn o bryd ar gyfer systemau taenellu at ddefnydd preswyl a domestig. [86]

*Tystiolaeth gan ymgyngoreion*

104. Derbyniwyd tystiolaeth gan nifer o dystion oedd yn awgrymu y dylai'r term 'system daenellu' gael ei gyfnewid â diffiniad mwy technegol, sy'n gydnabyddedig gan y diwydiant.

105. Mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru[87], Undeb y Brigadau Tân[88] a Chymdeithas y Diwydiant Tân [89] oll yn cytuno mai'r term technegol cydnabyddedig ar gyfer system daenellu yw 'system lladd tân awtomatig â dŵr'.

106. Cadarnhaodd y British Automatic Fire Sprinkler Association (BAFSA) na fyddent hwy'n gwrthwynebu defnyddio'r term 'system lladd tân awtomatig â dŵr'.[90]

---

[85] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 06/05/08, paragraff 186
[86] Gweler y Memorandwm Esboniadol Drafft paragraff 11
[87] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 15/04/08, paragraff 142; tystiolaeth ysgrifenedig, DFS4
[88] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS5
[89] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 22/04/08, paragraff 106
[90] *Ibid.*, paragraff 240

107. Yn eu tystiolaeth, cyfeiriodd Cartrefi Cymunedol Cymru at y Rheoliadau Adeiladu (yr Alban) 2004, sy'n defnyddio'r term 'systemau diogelwch bywyd lladd tân awtomatig â dŵr' a nodi'r cyfeiriad yn y Llawlyfr Technegol sy'n dweud "mae nifer o systemau lladd tân amgen ac arloesol ar gael". [91] Awgrymodd Cartrefi Cymunedol Cymru:

> "the Committee may wish to consider alternative terminology (…) to avoid any complications in designing a suitable Measure to comply with the Order".[92]

108. Yr oedd tystiolaeth arall yn tynnu sylw at yr angen i systemau taenellu - a'r cydrannau a ddefnyddir ynddynt - gydymffurfio gyda'r Safon Brydeinig 9251:2005. Yn benodol awgrymodd, BAFSA[93] a'r National Fire Sprinkler Network[94] y dylai'r Gorchymyn arfaethedig gynnwys gyfeiriad penodol at y safon Brydeinig gyfredol, neu'r safonau sy'n ei dilyn, yn nhermau cynllun a gosod unrhyw system daenellu

109. Mewn cysylltiad â hyn awgrymodd Dŵr Cymru y dylai system daenellu gael ei diffinio fel:

> "a sprinkler system designed to comply at all times of the day and year with BS 9251:2005; any subsequent amendments or equivalent superseding British standard and any other relevant British standard".[95]

*Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol*

110. Wrth ymateb i'r cwestiwn a yw'r term 'system daenellu' yn briodol, dywedodd Ann Jones AC ei bod wedi cael cyngor ar y derminoleg i'w defnyddio yn y Gorchymyn arfaethedig gan yr Automatic Fire Sprinkler Association, ond dywedodd ei bod yn barod i ystyried unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor. [96]

111. Mewn perthynas â chynnwys cyfeiriad penodol at y Safon Brydeinig, dywedodd Ann Jones AC er mai BS 9251:2005 yw'r safon dderbyniol a'r ddogfen sydd ar waith:

> "To include it in the Order could restrict future legislative competencies of the Assembly."[97]

112. Awgrymodd y byddai'n well cyfeirio at y safon Brydeinig fel y ddogfen waith briodol yn y Memorandwm Esboniadol. [98]

---

[91] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS9
[92] *Ibid.*
[93] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 22/04/08, paragraff 243 a 247 Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS6
[94] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS7
[95] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS11
[96] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 06/05/08, paragraff 188 a 194
[97] *Ibid.*, paragraph 197

113. Ymhellach ar hyn, dywedodd cynghorydd cyfreithiol Ann Jones, trwy gynnwys cyfeiriad penodol at BS 9251:2005 yn y Gorchymyn arfaethedig, os yw'r Sefydliad Safonau Prydeinig yn newid rhif y safon berthnasol, bydd y Cynulliad yn colli ei rym i ddeddfu. Fe awgrymodd ef:

> "That is the kind of thing that would usually be left to regulations. You could say, in a Measure, that Ministers could make regulations that would provide for certain standards that are deemed to satisfy the requirements of the Measure. Then, from time to time, as different standards came forward, regulations could amend that to respond to the situation."[99]

*Ein safbwynt ni*

114. Ar y mater cyffredinol a ddylai'r Gorchymyn arfaethedig gynnwys darpariaethau dehongli – yr ydym yn cydnabod bwriad Ann Jones i gynnwys y darpariaethau hyn yn ar wyneb y Gorchymyn arfaethedig er mwyn bod yn agored a thryloyw am nod ac amcanion y Gorchymyn arfaethedig.

115. Nodwn hefyd y ddadl a gyflwynwyd gan ei chynghorydd cyfreithiol, yn yr achos hwn, y gallai'r ddarpariaeth dehongli mewn perthynas â 'mangreoedd preswyl newydd' weithredu i ymestyn y diffiniad, yn hytrach na'i gyfyngu.

116. Fodd bynnag, yr ydym yn rhannu pryder y Gweinidog y gallai cynnwys darpariaethau dehongli yn y Gorchymyn arfaethedig gyfyngu'n anfwriadol ar allu'r Cynulliad i gyflwyno Mesurau sy'n berthnasol i ddiogelwch tân domestig yn y dyfodol.

117. Felly, **yr ydym yn argymell bod y Gorchymyn arfaethedig yn cael ei ddiwygio i hepgor ohono'r darpariaethau dehongli ar gyfer y termau 'mangreoedd preswyl newydd' a 'system taenellu', a bod darpariaethau dehongli priodol yn cael eu hystyried fel rhan o unrhyw Fesur(au) yn y dyfodol.**

118. Fodd bynnag, os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn cytuno â'r argymhelliad hwn, mae ein barn ar y darpariaethau dehongli unigol fel a ganlyn:

119. Mewn perthynas â'r term 'mangreoedd preswyl newydd', ystyriwn y term fel y darperir ar ei gyfer yn y Gorchymyn arfaethedig yn ddigon clir ac felly yr ydym yn fodlon gyda'r term hwn a'r dehongliad ohono.

120. **Mewn perthynas â'r term 'system taenellu', yr ydym wedi cael ein perswadio gan dystiolaeth a dderbyniwyd gennym y dylid newid y term**

---

[98] *Ibid.*
[99] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 06/05/08, paragraff 198

**hwn ac ystyried bod 'system lladd tân awtomatig â dŵr' yn derm mwy priodol, a dyna a argymhellwn.**

121. Mewn perthynas â chynnwys cyfeiriad at y Safon Brydeinig 9251:2005 ar wyneb y Gorchymyn arfaethedig, sylweddolwn bwysigrwydd y safon hon i osod gofynion ar gyfer system taenellu mewn tai preswyl a chartrefi domestig ac rydym yn cydnabod y dystiolaeth a gawsom sy'n awgrymu y dylai'r Gorchymyn arfaethedig gynnwys cyfeiriad penodol at y safon hon.

122. Fodd bynnag, derbyniwn ddadl yr Aelod sy'n gyfrifol y gallai cynnwys cyfeiriad o'r fath effeithio'n andwyol ar allu'r Cynulliad i ddeddfu yn y maes hwn yn y dyfodol pe byddai'r safon honno'n cael ei diwygio ac felly fe ystyriwn gyfeiriad at y Safon Brydeinig berthnasol yn fwy priodol i gael ymdrin ag ef mewn deddfwriaeth sy'n deillio o'r Gorchymyn arfaethedig. Yr ydym yn fodlon felly nad yw'r Gorchymyn arfaethedig yn cyfeirio dim at BS 9251:2005.

## 5. Materion Eraill

---

**Memorandwm Esboniadol – "addasu'n sylweddol"**

*Cefndir*

123. Mae Paragraff 35 y Memorandwm Esboniadol, wrth amlinellu cwmpas y Gorchymyn arfaethedig, yn cyfeirio at fangreoedd preswyl presennol sy'n cael eu 'haddasu'n sylweddol'.

*Tystiolaeth gan ymgyngoreion*

124. Yn eu tystiolaeth, gofynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am eglurhad ar ystyr y term 'addasu'n sylweddol', gan holi yn benodol a fyddai tai sy'n cael eu gwella'n sylweddol er mwyn cyrraedd y Safon Ansawdd Tai Cymru yn cael eu cynnwys o fewn cwmpas y Gorchymyn arfaethedig.

*Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol*

125. Mewn ymateb i gais am eglurhad, nododd cynghorydd cyfreithiol Ann Jones:

> "The intention is to refer back to the classes of alteration that are set out in the Order – the conversion (…) of premises so as to create one or more new residential units. Therefore, there is no added situation where there is a significant alteration that does not create a new residential unit."[100]

126. Ymhellach yn hyn o beth, cadarnhaodd na fyddai adnewyddu eiddo preswyl presennol yn creu'r gallu i ddeddfu, ond cydnabu bod y Memorandwm Esboniadol yn llai eglur nag y gallai fod ar y pwynt hwn ac y byddai angen edrych arno.[101]

*Ein safbwynt ni*

127. Yr ydym yn fodlon gyda'r esboniad a roddwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol mewn perthynas â'r term 'addasu'n sylweddol', ond **argymhellwn fod paragraff 35 o'r Memorandwm Esboniadol yn cael ei ail-eirio i wneud yn eglur ystyr y term 'addasu'n sylweddol' mewn perthynas â mangreoedd preswyl presennol.**

---

[100] *Ibid.*, paragraff 159
[101] *Ibid.*, paragraffau 159 and 161

## Cynnal a chadw a Gorfodaeth

*Cefndir*

128. Nid yw'r Gorchymyn arfaethedig yn cyfeirio'n benodol at gynnal a gorfodi systemau taenellu.

129. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio fodd bynnag at gost cynnal a chadw blynyddol posibl o rhwng £75 a £150 am system taenellu preswyl.

*Tystiolaeth gan ymgyngoreion*

130. Pwysleisiodd nifer o dystion bwysigrwydd cynnal a chadw systemau taenellu, gan gwestiynu eu dibynadwyedd os nad ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw'n iawn.

131. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Dŵr Cymru:

> "It is extremely important that any pump and the sprinkler system are regularly maintained if they are to work properly when needed (…)."[102]

132. Aethant ymlaen i ddweud:

> "Serious consideration needs to be given as to how to ensure that this maintenance will be carried out regularly by householders who cannot afford or understand the importance of maintenance'.[103]

133. Cytunodd y Rhwydwaith Chwistrellau Tân Ewropeaidd, er ei bod yn wybyddus bod systemau taenellu yn 'gryf', eu bod serch hynny angen eu cynnal a'u cadw. Yn eu tystiolaeth lafar, dywedasant:

> "… there is, in the British Standard, a programme of maintenance that is recommended, and we believe that, if you follow that, you will get reliability in the very high 90s in terms of percentage – somewhere around 99 per cent."[104]

134. Yr oeddent yn cydnabod nad oedd ganddynt unrhyw ddata o ran awdurdodaeth lle nad oes unrhyw waith cynnal a chadw'n cael ei wneud, ond dywedasant fod disgwyl i'r systemau hynny fod yn llai dibynadwy. [105]

[102] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS11
[103] *Ibid.*
[104] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 22/04/08, paragraff 218
[105] *Ibid.*

135. Ategwyd y pwyntiau hynny gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu, oedd o'r farn fod:

> "The major issue is if [the fitting of sprinkler systems] becomes widespread in low-rise buildings; it would be an additional burden placed on the householder that may or may not be at the top of their list of priorities, unless there was a regulation and certification system for doing that."[106]

136. Cefnogwyd hyn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a oedd hefyd yn cwestiynu sut y byddai cynnal a chadw systemau a osodwyd yn cael ei reoleiddio neu ei orfodi.[107]

137. Gwnaethpwyd pwynt tebyg gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd a Phort Talbot, a nododd nad yw'r Ddeddf Adeiladu (fel y mae'n berthynol i ddarpariaethau Rheolaeth Adeiladu) yn rhoi lle i oruchwyliaeth barhaus yn dilyn cwblhau gwaith.[108]

*Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol*

138. Pan holwyd hi a oedd y Gorchymyn arfaethedig yn rhoi darpariaeth ddigonol ar gyfer cynnal a chadw systemau taenellu, dywedodd Ann Jones AC:

> "The installation and maintenance of any sprinkler system could be honed down in a Measure. That is where we would have to look at the detail of how we would expect the maintenance of any sprinkler system to be covered."[109]

139. Yr oedd gan Ann Jones AC farn debyg mewn perthynas â gorfodi systemau taenellu:

> "If we get the LCO (…) it would be against the law not to have a sprinkler system fitted. Therefore, we would be looking at enforcement at the Measure stage. There are various suggestions there on who should or should not be the enforcers, and again those detailed proposals are for the Measure stage."[110]

140. Gyda golwg ar y costau cynnal a chadw, dywedodd:

> "As more and more people have sprinklers fitted, I believe that the maintenance costs will come down, because more and more people will understand it and there will be more competition and more work. At present, I believe that maintenance costs are as they are in those

[106] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 06/05/08, paragraff 121
[107] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS13
[108] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS19
[109] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 06/05/08, paragraff 166
[110] *Ibid.*, paragraff 168

areas where sprinklers are fitted because there are so few of them."[111]

*Ein safbwynt ni*

141. Nodwn y dystiolaeth a dderbyniwyd ynghylch pwysigrwydd cynnal a chadw a gorfodi systemau taenellu mewn mangreoedd preswyl newydd, ond cytunwn gyda'r Aelod sy'n gyfrifol y dylai'r materion manwl hyn fod yn rhywbeth ar gyfer Mesurau'r dyfodol.

---

**Cyflenwad dŵr**

*Cefndir*

142. Nid yw'r Gorchymyn arfaethedig yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer cyflenwi dŵr i'r systemau taenellu mewn mangreoedd preswyl newydd.

*Tystiolaeth gan ymgyngoreion*

143. Cododd nifer o ymatebwyr fater darpariaeth ddigonol o ddŵr a phwysau dŵr ar gyfer taenellu tân mewn mangreoedd preswyl.

144. Dywedodd y Cyngor Cenedlaethol Adeiladwyr Tai eu bod o'r farn:

> "(…) it is likely that residential sprinklers will not operate effectively in a significant proportion of households, due to insufficient water pressure. This will result in greater expense, as pumps and storage tanks will need to be introduced, to achieve the required sprinkler coverage in the event of a fire occurring".[112]

145. Cododd y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a Chydffederasiwn Diwydiant Prydain bryderon gyda golwg ar broblemau seilwaith a gallu a wynebir gan y diwydiant dŵr yng Nghymru. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig ar y cyd, nodwyd ganddynt:

> "(…) at present Welsh Water state in their Business Plan that infrastructure and capacity problems are holding up the development of 20,000 new homes'[113]. [We] are therefore concerned that the proposed Order might exacerbate existing problems in Wales, 'especially at a time where Welsh Water is experiencing difficulties meeting current demands".[114]

[111] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 08/04/08, paragraff 156
[112] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS18
[113] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS15
[114] *Ibid.*

146. Ar fater rheoli pwysedd, dywedodd Dŵr Cymru:

> "(…) in order to make the supply of water more efficient by reducing leakage and general consumption, pressure management is extensively applied across our distribution systems. Pressure in these mains is managed [such that it] will require a pump to be fitted to most sprinkler systems in those areas"[115].

147. Ymhellach, fodd bynnag, dywedodd Dŵr Cymru nad oedd disgwyl yn arferol bod unrhyw broblem i gyflenwi mangre ddomestig gyda'r llif dŵr angenrheidiol, ond ei bod yn ymddangos yn debygol y bydd nifer fawr o eiddo ble y bydd y costau hyn yn sylweddol uwch na'r costau a nodwyd ym mharagraff 32 y Memorandwm Esboniadol. [116]

148. Ar y pwynt hwn, nodwyd ganddynt y byddai angen i'r costau angenrheidiol gael eu codi ar y sawl sy'n gwneud cais am gyflenwad dŵr, ac y byddai costau darparu cyflenwad dŵr o'r fath, gyda'r llif a'r pwysau angenrheidiol yn debygol o fod yn uchel.

*Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am gynnig y Mesur*

149. Wrth ymateb i gwestiwn ar ddarparu cyflenwadau dŵr digonol i gynnal y system taenellu, rhoddodd cynghorwyr technegol Ann Jones wybod i ni fod y Safon Brydeinig 9251:2005 yn darparu ar gyfer pum dull cyflenwi'r dŵr derbyniol ar gyfer y system taenellu. Nodwyd ganddynt:

> "Supply can come directly from the mains water supply; from a pressure tank or vessel; from a fire pump drawing from a stored water facility; from a fire pump drawing from a mains water supply or an elevated storage system; and from a gravity-fed stored water system, if required."[117]

150. Aethant ymlaen:

> "It is probably worth adding that stored water, as described in the British Standard, may also include such things as swimming pools, lakes and wells, as long as a proper survey has been conducted of them. To me, that is of huge benefit in Wales, because you have such wide-ranging areas in rural communities, and it means that you can use options other than the mains system."[118]

151. Wrth ymateb ar fater amrywiadau ym mhwysau'r prif gyflenwad dŵr, dywedodd cynghorwyr technegol Ann Jones:

---

[115] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS11
[116] *Ibid.*
[117] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 08/04/08, paragraff 102
[118] *Ibid.*

> “(…) water authorities have a little bit of concern about (…) the mains supply, because there are occasions when they put the pressure down, to save on leakage and so on, at periods of low water usage. However, you can see from the British standard that there are four other perfectly acceptable alternatives that can be utilised to provide the water that is needed.”[119]

*Ein safbwynt ni*

152. Nodwn y dystiolaeth a dderbyniwyd gan dystion mewn perthynas â darparu dŵr a phwysau dŵr ar gyfer taenellwyr dŵr mewn mangreoedd preswyl newydd.

153. Fe nodwn hefyd y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr Aelod sy’n gyfrifol am gynnig y Mesur a’i chynghorwyr technegol ar y pwynt hwn, yn benodol mewn perthynas â’r nifer a’r amrywiaeth o ddulliau cyflenwi dŵr derbyniol sydd ar gael.

154. O’i ystyried, credwn fod darpariaeth cyflenwad dŵr digonol a phwysau dŵr yn fanylyn y dylid mynd i’r afael ag o mewn Mesurau yn y dyfodol.

---

**Goblygiadau o ran Cost**

*Cefndir*

155. Fe wnaethom dderbyn tystiolaeth helaeth mewn perthynas â chostau cysylltiedig â gosod taenellwyr tân mewn mangreoedd preswyl newydd.

*Tystiolaeth gan ymgyngoreion*

156. Mae’r Memorandwm Esboniadol sy’n mynd gyda’r Gorchymyn arfaethedig yn amcangyfrif bod cost gosod system taenellu mewn eiddo a adeiledir o’r newydd i fod oddeutu 1 – 2% o gyfanswm y gost adeiladu.[120]

157. Cefnogwyd yr amcangyfrif hwn gan y Gwasanaethau Tân ac Achub ac Undeb y Brigadau Tân a nododd:

> “the cost of a sprinkler system in a new build is (…) cheaper than a reasonably priced carpet. Whilst the estimated cost of fires to the UK economy is over £7 billion a year, equivalent to 0.78% of the gross value of the economy.”[121]

---

[119] *Ibid.*, paragraff 102 - 103
[120] Paragraff 32
[121] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS5

158. I gefnogi'r pwynt hwn, dyfynnodd y Gwasanaethau Tân ac Achub esiampl o Scottsdale, Arizona, lle mae'n ofynnol bod eiddo yn cael taenellwyr wedi'u gosod yn y cam adeiladu o'r newydd. Dywedasant:

> "(..) the average cost of a fire having taken hold in a home in Scottsdale used to be $80,000 but is now down to $3,000. So, whether you are looking at it from the commercial perspective of the insurers, who have to pay out, or from the perspective of the family, in reducing the amount of damage done to the home (…) you will see there are huge benefits to be had from the introduction of sprinklers (...)."[122]

159. Mae Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai a Chydffederasiwn Diwydiant Prydain, fodd bynnag, gan ddibynnu ar dystiolaeth gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladau yn nodi, y byddai amcan y gost o osod taenellydd dŵr mewn cartref tair ystafell wely a adeiledir o'r newydd rhwng £1500 - £2730 i bob eiddo, yn dibynnu ar y gost o gysylltu â'r prif gyflenwad dŵr. [123]

160. Dylid nodi, fodd bynnag, yn ei dystiolaeth ei hun ar y pwynt hwn, dywedodd y Sefydliad Ymchwil Adeiladau y dylid gwneud mwy o ymchwil i wir fanteision a phroblemau sy'n gysylltiedig ag integreiddio i gynllun adeilad systemau taenellu yn y farchnad ddomestig.

161. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, rhoddodd Cartrefi Cymunedol Cymru fanylion am gynllun peilot a ariannwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, a wnaethpwyd yn Aberafon, i 'ymchwilio i anawsterau technegol a chostau gosod taenellwyr domestig.' Dywedasant fod cyfanswm cost gosod taenellwyr mewn naw o dai oddeutu £46,000 - dros £5,100 i bob byngalo. [124]

162. Nodwyd ganddynt:

> "The scheme proved to be enormously complicated and negotiations with the water authority on meeting its requirements became prolonged."[125]

163. Awgrymwyd ganddynt hefyd y byddai cost barhaus yn gysylltiedig â phrofi, cynnal a chadw a gwasanaethu'r cyfarpar a fyddai'n arwain at gost i gael ei ysgwyddo gan y pwrs cyhoeddus, naill ai drwy grant ychwanegol neu trwy fudd-dal tai. Yr oeddent yn tynnu sylw at adroddiad y Sefydliad Ymchwil Adeiladau 2005 a ddaeth i'r casgliad:

> "Residential sprinklers are probably cost effective for residential care homes and tall blocks of flats but are not cost effective for other dwellings".[126]

---

[122] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 08/04/08, paragraff 82
[123] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS15
[124] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS9
[125] *Ibid.*
[126] *Effectiveness of sprinklers in residential premises,* Rhif adroddiad prosiect 204505, Sefydliad Ymchwil Adeiladau Cyf 2005

164. Dylid nodi, mewn ymateb i hyn, dywedodd y Sefydliad Ymchwil Adeiladau:

> "When the report was carried out in 2003-04, there were no data or case studies in the UK about where sprinklers had been incorporated. That is the piece of work that we will finish in the next week or two (…) which is the latest, up-to-date information."[127]

165. Aethant ymlaen:

> "(…) our latest report will (…) perhaps look a little more favourably on the individual residential rather than the multi-residential market."[128] [129]

166. Mewn cysylltiad â hyn, mynegodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bryderon am gostau, gan ddweud bod angen ystyried effaith y costau uwch ar allu adeiladwyr tai i ddatblygu tai fforddiadwy,[130] er yn eu tystiolaeth lafar, yr oeddent yn cydnabod y gallai pryderon ynghylch costau gael eu goresgyn gan drafodaethau llawn yn y cychwyn ar effaith a'r goblygiadau o ran cost, yn arbennig y cyfleoedd mewn perthynas ag arbedion maint.[131]

167. Hefyd derbyniasom dystiolaeth gan nifer o dystion[132] oedd yn awgrymu y gellid gwneud arbedion ar daliadau yswiriant ar gyfer tai lle'r oedd taenellwyr wedi'u gosod.

168. Ar y pwynt hwn, nododd Cymdeithas Yswirwyr Prydain yn eu tystiolaeth ysgrifenedig fod:

> "Insurers encourage the installation of sprinklers in commercial buildings and offer premium reductions to businesses and schools that install them. However, because home insurance premiums are much lower than business premiums, the scope for offering discounts to home owners that install sprinklers are much more limited."[133]

169. Aethant ymlaen i ddweud:

> "(…) even if we assume that the successful operation of sprinklers halves the cost of fires, this would only result in a reduction in premium of 3 or 4%, or £10 on a £300 premium".[134]

---

[127] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 06/05/08, paragraff 112
[128] *Ibid.*
[129] Ar amser y cyhoeddi, nid ydym wedi gweld yr adroddiad diweddaraf gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladau
[130] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS13
[131] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 06/05/08, paragraff 11
[132] Yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant taenellu tân a'r gwasanaeth tân ac achub
[133] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS14
[134] *Ibid.*

170. Ar bwynt cysylltiedig, mynegodd y Gymdeithas Diwydiant Tân bryderon am leihad mewn systemau diogelwch rhag tân eraill er mwyn cyfiawnhau buddion costau taenellwyr. Yr oeddent yn awgrymu y gallai gwaredu camau diogelwch tân a brofwyd megis drysau tân ac 'elfennau strwythurol eraill' agor dadleuon a allai gael eu hymestyn yn rhwydd i ddweud os oes llai o arian yn cael ei wario ar y gwasanaethau tân ac achub yna gallai'r 'arbedion' hyn gael eu defnyddio i gyfiawnhau gosod taenellwyr.[135]

*Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol*

171. Pan holwyd hi am oblygiadau cost cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig, dywedodd Ann Jones AC:

> "Commercial developers will bear the brunt, but (…) commercial developers will then reflect that in their final prices. On initial costs, (…) we think that it is between 1 and 1.5 per cent of the unit cost to the developer. We also need to bear in mind that (…) builders and developers will know that they have to put them in. Therefore, they will do the negotiation and I am sure that (…) they will negotiate a good price for a significant number of systems. I would say that we will see the cost coming down."[136]

172. Ymhellach ar hyn, ac yn benodol, ar yr effaith y gallai'r Gorchymyn arfaethedig ei gael ar brynwyr, dywedodd Ann Jones AC:

> "(…) I do not think that first-time buyers or any new buyers would be swayed by [costs]. I think that the cost is at the developers' stage and I am sure that (…) developers will (…) buy [sprinkler systems] from recognised distributors and they will buy them at a cost according to however many houses they happen to be building at the time. (…) I am sure that we will then be able to work out, if we have affordable housing in a scheme, the cost of installing sprinklers across the piece."[137]

173. Cydnabu:

> "(…) costs will vary according to the size of property being built or according to significant alterations or conversions."[138]

174. Ond awgrymodd:

> "Perhaps we could consider installation costs more fully when we discuss proposed Measures. The cost will depend on the details of Measures."[139]

---

[135] Tystiolaeth ysgrifenedig, DFS8
[136] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 08/04/08, paragraff 71
[137] RoP, (Pwyllgor GCD ynghylch Diogelwch Tân Domestig), 06/05/08, paragraff 147
[138] *Ibid.*, paragraff 145

*Ein safbwynt ni*

175. Yr ydym yn cydnabod y dystiolaeth a dderbyniwyd mewn perthynas â chostau posibl gweithredu amcan y polisi, ac rydym yn nodi'r amcangyfrifon cost a ddarparwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol.

176. Yr ydym yn cydnabod hefyd bod ffactorau eraill a allai effeithio ar gostau gosod a chynnal a chadw system taenellu, megis manteision arbedion maint ac amrywiadau mewn costau yswiriant cartref.

177. Yr ydym yn ystyried y byddai unrhyw bwyllgor Mesur a sefydlwyd i gyflwyno adroddiad ar Fesur yn y dyfodol sy'n deillio o'r Gorchymyn arfaethedig yn archwilio goblygiadau cost y Mesur hwnnw'n gyflawn, ac o'r herwydd, nid ydym yn ystyried bod hwn yn fater ar gyfer y Mesur arfaethedig.

[139] *Ibid.*

Atodiadau

**GWNEIR GORCHMYNION CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL YN SAESNEG YN UNIG. CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL.**

**LCOS ARE MADE IN ENGLISH ONLY. THIS IS A TRANSLATION INTO WELSH FOR INFORMATION AND IT HAS NO LEGAL EFFECT.**

*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig o dan adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad a dau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

---

# 200[ ] Rhif

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

## DATGANOLI, CYMRU

# Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 7) 2008

*Wedi'i wneud - - - -* ***

*Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1*

Yn Llys Palas Buckingham, y *** dydd o *** 2008

Yn bresennol

Ei Hardderchocaf Fawrhydi y Frenhines yn ei Chyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**a**) mae drafft o'r Gorchymyn hwn wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig ac wedi'i gymeradwyo ganddynt drwy benderfyniad.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adran 95(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, drwy ei Chyfrin Gyngor a chydau'u cyngor, orchymyn fel a ganlyn:-

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 7) 2008 a daw i rym drannoeth y diwrnod y caiff ei wneud.

### Diwygiadau i Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

**2.**—(1) Diwygir Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn unol â'r erthygl hon.

(2) Ym Maes 11 (tai) mewnosoder—

---

(**a**) 2006 (p.32)

*"Matter 11.1*

Provision for and in connection with a requirement that a sprinkler system be installed in new residential premises.

*Interpretation of this Matter*

"New residential premises" means –
(a) premises constructed for residential use;
(b) premises converted to residential use;
(c) premises converted to use as a single residence by physical subdivision of one or more existing residential premises; and
(d) premises converted to use as a single residence by physical incorporation of more than one existing residential premises.

A "sprinkler system" means any automatic fixed system intended to extinguish control or contain fires by means of water propelled under pressure through pipework and spray heads which operate when a predetermined temperature is reached.".

Clerc y Cyfrin Gyngor

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Effaith y Gorchymyn yw estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud cyfreithiau newydd ar gyfer Cymru drwy Fesur o dan adran 93 o Ddeddf 2006.

Mae Erthygl 2 yn mewnosod mater 11.1 newydd ym Maes 11. Mae'r mater newydd sy'n cael ei fewnosod yn ymwneud â galluogi gofyniad i gael ei orfodi, bod rhaid i system daenellu gael ei gosod mewn mangreoedd preswyl newydd (gan gynnwys mangreoedd preswyl a gaiff eu creu drwy fynd ati'n ffisegol i isrannu mangreoedd presennol neu i'w hymgorffori). Bydd unrhyw ddarpariaeth mewn Mesur Cynulliad sy'n ymwneud â'r mater 11.1 newydd yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn rhinwedd y mater hwn ac adran 94(4) o Ddeddf 2006.

**Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig Aelod: Diogelwch Tân Domestig Memorandwm Esboniadol Drafft**

**Rhagymadrodd**

1. Mae'r Memorandwm hwn wedi'i baratoi ac wedi'i osod yn unol â Rheol Sefydlog 22.14. Mae'n nodi cefndir y darpariaethau yn y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig Aelod amgaeedig a fyddai'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae wedi'i osod yn unol â Rheol Sefydlog 22.13 ac mae'n esbonio hyd a lled y pŵer y gofynnir amdano.

2. Mae cyd-destun cyfansoddiadol y cais hwn wedi'i nodi gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006) a pholisi Llywodraeth y DU. Nododd Papur Gwyn Llywodraeth y DU "Trefn Lywodraethu Well i Gymru " a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2005 ymrwymiad Llywodraeth y DU i wella pwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel sefydliad sydd wedi'i ethol yn ddemocrataidd a chanddo ei weithdrefnau manwl ei hun ar gyfer gwaith craffu.

3. Mae adran 95 o Ddeddf 2006 yn rhoi pŵer i'w Mawrhydi roi cymhwysedd, drwy Orchymyn Cyfrin Gyngor, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu drwy Fesur Cynulliad ar faterion penodedig. Gall y materion hyn gael eu hychwanegu at Feysydd yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Caiff Mesurau Cynulliad wneud unrhyw ddarpariaeth a allai gael ei gwneud drwy Ddeddf Seneddol (ac felly maen nhw'n cael diwygio deddfwriaeth sydd eisoes yn bod a gwneud darpariaethau newydd), mewn perthynas â materion, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau y darperir ar eu cyfer yn Rhan 3 o Ddeddf 2006. Cyfeirir at Orchymyn Cyfrin Gyngor o dan adran 95 o Ddeddf 2006 fel Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn y memorandwm hwn.

4. Caniateir i faterion gael eu mewnosod yn y meysydd a geir yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006, naill ai drwy Ddeddf Seneddol neu drwy Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, a gymeradwyir gan y Cynulliad a chan ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig. Mae'r llwybr olaf yn caniatáu i'r Cynulliad ddechrau'r broses ar gyfer rhoi cymhwysedd o'r fath, drwy gyfrwng Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol.

5. Byddai'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig yn rhoi rhagor o gymhwysed deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ym maes Tai (maes 11, Rhan 1, Atodlen 5 i Ddeddf 2006).

6. Bydd pwerau deddfu newydd mewn perthynas â'r "mater" penodedig yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad a Phwyllgorau'r Cynulliad i gyflwyno cynigion cydlynol ar gyfer deddfwriaeth, ar ffurf Mesurau, a seilir ar flaenoriaethau ac amserlenni Cymru. Rhaid i'r Mesurau hyn fod yn destun gwaith craffu trylwyr gan y Cynulliad a chael eu cymeradwyo ganddo.

7. Ar 26 Mehefin 2007 enillodd Ann Jones y balot i gyflwyno Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig. Ar 10 Hydref 2007, cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 22.50, y câi Ann Jones osod Gorchymyn arfaethedig, i roi ei effaith i'r Gorchymyn arfaethedig amlinellol a ddarparwyd ar 26 Mehefin 2007 o dan Reol Sefydlog 22.48, a Memorandwm Esboniadol.[1]

**Y cefndir**

*Yr hyn y mae'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn ceisio'i sicrhau.*

8. Mae'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn ceisio rhoi cymhwysedd i ddeddfu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn i Fesur Cynulliad gael ei gyflwyno yn ei gwneud yn ofynnol i system taenellu tân gael ei gosod yn yr holl dai a adeiledir o'r newydd yng Nghymru. At ddibenion y Gorchymyn arfaethedig, ystyr "tai a adeiledir o'r newydd" yw "mangreoedd preswyl newydd" a ddiffinnir fel mangreoedd a adeiledir neu a drosir at ddibenion preswyl, gan gynnwys mangreoedd preswyl a grëir drwy fynd ati'n ffisegol i isrannu neu i ymgorffori mangreoedd preswyl sydd eisoes yn bod. Byddai'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu yn y maes polisi hwn. Wedyn byddai Mesur yn cael ei gyflwyno i'w gwneud yn ofynnol i daenellwyr tân gael eu gosod mewn mangreoedd preswyl newydd.

9. Amcan y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig (ac amcan y Mesur dilynol) yw lleihau mynychder marwolaethau ac anafiadau o danau mewn tai a adeiledir o'r newydd yng Nghymru. Mae hyn i'w wireddu drwy ei gwneud yn ofynnol i systemau taenellu tân gael eu gosod yn yr holl fangreoedd preswyl newydd. Gwelir hyn fel mesur ataliol, er mwyn i bobl ddod allan o'u tai os bydd yna dân. Bydd hefyd yn lleihau'r risg i ddiffoddwyr tân sy'n cael eu galw i ymdrin â thanau domestig.

10. Bwriedir i'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol gynnwys yr holl fangreoedd preswyl sy'n cael eu codi o'r newydd a'r holl adeiladau sy'n cael eu trosi i'w defnyddio at ddibenion preswyl yn lle diben arall. Fyddai gosod systemau taenellu yn ôl-syllol mewn mangreoedd preswyl sydd eisoes yn bod ddim yn cael ei gynnwys.

11. Mae system taenellu tân yn cael ei diffinio fel unrhyw system osod awtomatig y bwriedir iddi ddiffodd, rheoli neu gyfyngu tanau drwy gyfrwng dŵr sy'n cael ei yrru o dan bwysau drwy bibau a phennau chwistrellu sy'n gweithredu pan fydd tymheredd a bennwyd ymlaen llaw yn cael ei gyrraedd. Y Safon Brydeinig bresennol ar gyfer taenellwyr tân preswyl y cyfeirir ati yn y Rheoliad Adeiladu yw BS 9251:2005.

[1] Cofnod y Trafodion t79-100, 10 Hydref 2007

*Marwolaethau Tân yng Nghymru*

12. Ledled Cymru, bydd 20 o bobl ar gyfartaledd yn colli eu bywydau mewn tanau bob blwyddyn. Yn y cartref y bydd rhyw 80% o'r marwolaethau a'r anafiadau sy'n gysylltiedig â thân yn digwydd.

13. Yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2006, cafwyd 10 marwolaeth mewn tanau damweiniol a 494 o anafiadau yn gysylltiedig â thanau mewn anheddau yng Nghymru. Yn ychwanegol, cafwyd 1 farwolaeth ac 80 o anafiadau yn gysylltieidg â thanau bwriadol mewn anheddau yng Nghymru.[2]

14. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yna fwy o risg o danau domestig i rai grwpiau penodol o'r boblogaeth. Mae gwaith ymchwil gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi nodi grwpiau sydd mewn mwy o risg o danau na'r boblogaeth yn gyffredinol.[3] Yn ôl yr ymchwil hon, mae'r grwpiau sy'n agored i niwed yn tueddu i fod tua gwaelod y grwpiau demograffig incwm is/difreintiedig, yn benodol:

    - Pobl sengl canol oed, sy'n yfed ac yn ysmygu gartref (40-59 oed gyda thuedd wryw)
    - Rhieni unigol benyw
    - Pobl oedrannus iawn
    - Pobl ag anabledd/amhariad
    - Pobl ifanc (16-24) – gan gynnwys myfyrwyr

15. Sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y Cynulliad Cyntaf Weithgor Diogelwch Tân Cymunedol. Cylch gorchwyl y Gweithgor oedd edrych ar y cyfle i fabwysiadu'n eang yng Nghymru Ganfodyddion Mwg Gwifrau Caled mewn Tai Cymdeithasol; gosod systemau taenellu domestig a'u hymestyn i adeiladau cyhoeddus eraill mewn aml-feddiannaeth ac edrych ar opsiynau ar gyfer rheoli mynychder llosgi bwriadol. Cafodd adroddiad y Gweithgor *Wired for Safety*[4] ei gyhoeddi ym mis Hydref 2001 ac argymhellodd y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddiwygio'i Ofynion Ansawdd Datblygu fel y dylai systemau taenellu gael eu gosod yn yr holl dai cymdeithasol newydd yng Nghymru wrth eu codi. Argymhellodd yr adroddiad hefyd y dylai'r Cynulliad geisio gorfodi gofyniad bod rhaid cael taenellwyr mewn ysgolion newydd, neuaddau preswyl newydd i fyfyrwyr, cartrefi nyrsys newydd a chartrefi preswyl newydd.

[2] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Y Gyfarwyddiaeth Ystadegau, Fire Statistics Monitor, Quarter 3 2006: http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/other-2007/hdw200708091/?lang=en
[3] Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Research Bulletin No 9 - Learning Lessons from Real Fires: Findings from Fatal Fire Investigation Reports, Gorffennaf 2006 http://www.communities.gov.uk/publications/fire/researchbulletinno9
[4] Gweithgor Diogelwch Tân Cymunedol, Wired for Safety, Hydref 2001 http://new.wales.gov.uk/dsjlg/publications/fire/wiredforsafety/report?lang=en

*Y costau sy'n gysylltieidg â thanau domestig*

16. Yn 2004, amcangyfrifwyd bod cyfanswm cost tanau i economi'r DU yn £7.03bn, sy'n cyfateb i ryw 0.78% o werth ychwanegol gros yr economi.[5]

17. Ar sail cyfran Cymru o gyfanswm y tanau yng Nghymru a Lloegr yn y deuddeng mis yn diweddu ar 30 Medi 2006, gellir amcangyfrif bod cyfanswm cost economaidd tanau yng Nghymru tua £408 miliwn y flwyddyn.

18. Cost tanau mewn adeiladau domestig yw un o'r cyfranwyr mwyaf at gyfanswm cost economaidd tanau, sef 28% o gyfanswm y gost.

19. Mae cost gyfartalog tân domestig wedi'i hamcangyfrif yn £24,900, ac o hynny rhyw £14,600 yw cost economaidd anafiadau a marwolaethau a £7,300 yw cost difrod i eiddo.

20. Mae'r amcangyfrifon yn cynnwys costau gofal iechyd o ganlyniad uniongyrchol i danau (ond nid costau dioddefaint a gofal iechyd sy'n gysylltieidg ag anafiadau i ddiffoddwyr tân sy'n digwydd wrth hyfforddi).

21. Mae natur hollbresennol bygythiad tân yn aml yn cael ei hanghofio, gan mai yn achlysurol yn unig y ceir marwolaethau ac anafiadau, heb greu'r un effaith felly â thrasiedi gyfun. Mae hyn hefyd yn effeithio ar farn pobl am ganlyniadau economaidd tân, nad ydyn nhw'n cael eu gweld ar raddfa gyfun.

*Manteision gosod systemau taenellu tân mewn eiddo domestig*

22. Mae taenellwyr wedi'u hymgorffori mewn adeiladau ers tro byd ac yn wreiddiol roedden nhw'n cael eu gweld ac fe gawson nhw eu datblygu fel ffordd i leihau colledion yn sgil tân o safbwynt yr eiddo a'r cynnwys. Dros y blynyddoedd diwethaf, cafwyd cydnabyddiaeth gynyddol i'w defnyddio fel ffordd i gyfrannu at ddiogelu bywyd, a gydnabyddir erbyn hyn yng nghanllawiau presennol y DU ar y Rheoliadau Adeiladu.[6]

23. Er mai cyfyngu neu reoli tanau yw prif ddiben taenellwyr, mae'r dystiolaeth sydd wedi'i chasglu ledled y byd yn dangos bod pobl yn yr ystafell lle tarddodd y tân wedi goroesi, mewn nifer o achosion, am fod y system daenellu wedi bod yn effeithiol. Does dim achosion wedi'u cofnodi lle mae nifer fawr o farwolaethau mewn tân wedi digwydd mewn adeiladau lle'r oedd systemau taenellu'n gweithio. Mae'r dystiolaeth yn dangos hefyd nad oes bywydau wedi'u colli yn y DU oherwydd tân mewn adeiladau lle'r oedd systemau taenellu domestig wedi'u gosod.

---

[5] Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, The Economic Cost of Fire: Estimates for 2004, Ebrill 2006 http://www.communities.gov.uk/fire/fireandresiliencestatisticsandre/firestatistics/economiccost/

[6] Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Approved Document B (Fire safety) – Volume 1: Dwelling houses (Argraffiad 2006) http://www.planningportal.gov.uk/england/professionals/en/1115314683674.html

24. O ran eiddo lle mae taenellwyr wedi'u gosod, daeth adroddiad[7] a gyhoeddwyd yn yr Unol Daleithiau yn 2007 gan y Gymdeithas Genedlaethol er Amddiffyn rhag Tân i'r casgliad:

- bod y gyfradd farwolaethau o leiaf 57% yn is;
- bod y difrod am bob tân, yn achos y mwyafrif o'r dibenion y defnyddir eiddo ar eu cyfer, un traean i ddau draean yn is;
- bod difrod y fflamau, mewn 89% o'r tanau mewn strwythurau y rhoddir gwybod amdanyn nhw, wedi'i gyfyngu i'r ystafell y dechreuodd y tân ynddi, o'i gymharu â 57% pan nad oes system ddiffodd awtomatig ar gael.

25. Daeth astudiaeth ddiweddar[8] gan Sefydliad Cenedlaethol Safonau a Thechnoleg yr Unol Daleithiau, i'r casgliad bod taenellwyr mewn unedau preswyl i deuluoedd unigol yn gwneud synnwyr economaidd da iawn yn nhermau'r adenillion ar y buddsoddiad.

26. Mewn rhannau eraill o'r byd lle mae wedi dod yn ofyniad statudol i systemau taenellu tân gael eu gosod, cafwyd gostyngiadau dramatig yn nifer y marwolaethau sydd wedi'u hachosi gan danau domestig. Er enghraifft, yn ninas Vancouver lle mae is-ddeddfau wedi'u cyflwyno, ym 1972-1974 roedd nifer y marwolaethau am bob 100,000 o boblogaeth ychydig o dan 7 y flwyddyn. Erbyn y cyfnod 1992-1998, roedd nifer y marwolaethau am bob 100,000 o boblogaeth wedi gostwng i 0.6, o ganlyniad i'r rheoliadau ynghylch taenellwyr gorfodol.[9]

27. Cafodd yr astudiaeth fwyaf cynhwysfawr ar effeithiolrwydd taenellwyr tân preswyl hyd yn hyn ei chynnal gan Adran Dân Wledig/Ddinesig, Scottsdale, Arizona.[10] Ym mis Mehefin 1985, pasiodd Dinas Scottsdale 'Ordiniant' yn ei gwneud yn ofynnol i bob strwythur masnachol newydd phob strwythur newydd yn cynnwys fflatiau a fyddai'n cael eu codi ar ôl 5 Gorffennaf 1985 gael system taenellu tân wedi'i gosod ac i bob preswylfa newydd i deuluoedd unigol a fyddai'n cael eu codi ar ôl 1 Ionawr 1986 allu cynnwys taenellwyr tân.

28. Ym 1997, cyhoeddodd Adran Dân Wledig/Ddinesig Scottsdale Saving Lives, Saving Money: Automatic Fire Sprinklers: A 10 Year Study a oedd yn dadansoddi effaith yr Ordiniant.

29. Roedd astudiaeth Scottsdale yn cynnwys adolygiad o 109 o danau a ddigwyddodd mewn strwythurau lle'r oedd taenellwyr, 44 ohonyn nhw yn

---

[7] Y Gymdeithas Genedlaethol er Amddiffyn rhag Tân, U.S. experience with sprinklers and other automatic fire extinguishing equipment, Mehefin 2007
http://www.nfpa.org/assets/files//PDF/OSsprinklers.pdf
[8] Adran Masnach yr Unol Daleithiau, Sefydliad Cenedlaethol Safonau a Thechnoleg (NIST), Benefit-Cost Analysis of Residential Fire Sprinkler System, Medi 2007
http://www.bfrl.nist.gov/oae/publications/nistirs/NISTIR_7451_Oct07.pdf
[9] Y Sefydliad Ymchwil Adeiladu, Effectiveness of sprinklers in residential premises, Chwefror 2004
http://www.bre.co.uk/filelibrary/rpts/sprinkler/sprinkler_section3.pdf
[10] http://www.firesprinklers.org.uk/Services/Documents/Scottsdale.pdf

strwythurau preswyl. Mewn mwy na 90 y cant o'r digwyddiadau hyn, cafodd y tanau eu rheoli gan un neu ddau o bennau taenellu, ac ar gyfartaledd cafodd 209 galwyn o ddŵr eu defnyddio i ladd y tân, o'i gymharu â'r amcangyfrif o 3,290 galwyn i ladd tân â llaw mewn eiddo preswyl. Barnwyd bod wyth o fywydau wedi'u hachub dros y cyfnod o ganlyniad uniongyrchol i osod systemau taenellu tân, a phedwar o'r rhain mewn eiddo preswyl, a bod hyd at $25.4m wedi'i arbed, ar sail cyfanswm y colledion posibl oherwydd tanau mewn eiddo preswyl lle'r oedd taenellwyr.

30. Dim ond pan fydd tymheredd yr ystafell lle mae tân yn llosgi yn cyrraedd y tymheredd sydd wedi'i nodi ymlaen llaw ar y pen taenellu y bydd taenellwyr tân yn cychwyn - sef 68 gradd ganradd fel rheol. Mae taenellwyr yn gweithredu fel synwyryddion gwres unigol - sy'n golygu mai dim ond yn y fan lle mae yna dân y caiff dŵr ei ryddhau. Yn aml, mewn ystafell sy'n cynnwys dau ben taenellu, dim ond un fydd yn cychwyn mewn gwirionedd. Mae swm y dŵr sy'n cael ei ddefnyddio gan system daenellu yn llawer llai na'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaeth tân, a hynny am fod y tân yn cael ei ymladd mewn cyfnod cynnar iawn. Ar gyfartaledd, mae diffoddwyr tân yn debyg o gyrraedd o leiaf 10 munud ar ôl i'r tân ddechrau, sy'n golygu bod angen mwy o ddŵr a bod y risg i fywyd diffoddwr tân yn llawer uwch. Mae data sydd wedi'i gasglu dros 30 mlynedd yn awgrymu yr amcangyfrifir bod y perygl y bydd pen taenellu yn methu yn eithriadol o brin, heb fod yn fwy nag 1 mewn 16 miliwn o bosibl.

*Costau systemau taenellu tân domestig*

31. Cost gyfalaf y gwaith gosod yw'r brif gost sy'n gysylltiedig â systemau taenellu tân. Mae yna gostau cynnal-a-chadw parhaus hefyd.

32. Amcangyfrifir bod y gost yn achos y rhan fwyaf o gartrefi newydd tuag 1% i 2% o gyfanswm cost yr adeiladu. Mae'r costau cynnal blynyddol rhwng £75 a £150 y flwyddyn. Bydd gosod taenellwyr tân fel arfer yn caniatáu rhyddid yn y dylunio a all ostwng costau adeiladu a chaniatáu dylunwaith arloesol, megis cartrefi cynllun agored. Gallai'r manteision eraill gynnwys gostwng y costau adeiladu pan fydd taenellwyr yn caniatáu i ddrysau tân costus neu elfennau strwythurol eraill gael eu hepgor.

**Cwmpas**

33. Byddai'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn ychwanegu'r mater canlynol at faes 11 o Atodlen 5:

*Mater 11.1*

*Darpariaeth ar gyfer gofyniad bod rhaid gosod system daenellu mewn mangreoedd preswyl newydd ac mewn cysylltiad â'r gofyniad hwnnw.*

*Dehongli'r Mater hwn*

*Ystyr "mangreoedd preswyl newydd" yw -*
*(a) mangreoedd a adeiledir at ddibenion preswyl;*
*(b) mangreoedd a drosir at ddibenion preswyl;*
*(c) mangreoedd a drosir i'w defnyddio'n un breswylfa drwy isrannu'n ffisegol un neu fwy o fangreoedd preswyl presennol; ac*
*(ch) mangreoedd a drosir i'w defnyddio'n un breswylfa drwy ymgorffori'n ffisegol fwy nag un fangre breswyl bresennol.*

*Ystyr "system daenellu" yw unrhyw system osod awtomatig y bwriedir iddi ddiffodd, rheoli neu gyfyngu tanau drwy gyfrwng dŵr sy'n cael ei yrru o dan bwysau drwy bibau a phennau chwistrellu sy'n gweithredu pan fydd tymheredd a bennwyd ymlaen llaw yn cael ei gyrraedd.*

34. Mae'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn ceisio rhoi pwerau i'r Cynulliad i wneud Mesurau Cynulliad mewn perthynas â gosod systemau taenellu tân mewn mangreoedd preswyl newydd.

35. Pan fydd y pŵer hwn wedi'i roi, y bwriad yw cyflwyno Mesur a fyddai'n ei gwneud yn ofyniad statudol bod system taenellu tân yn cael ei gosod ym mhob un o'r canlynol:

- Mangreoedd preswyl newydd eu codi gan gynnwys fflatiau/ rhandai.
- Mangreoedd preswyl presennol sy'n cael eu haddasu'n sylweddol, gan gynnwys trosi anheddau sengl yn Dai mewn Amlfeddiannaeth, a throsi mangreoedd sengl yn fflatiau.
- Adeiladau presennol sy'n cael eu trosi o ddibenion amhreswyl i'w defnyddio at ddibenion preswyl (e.e. swyddfeydd a drosir yn fflatiau).
- Mathau eraill o newid defnydd o ddibenion amhreswyl i ddibenion preswyl, lle bydd gwaith trosi'n digwydd.

36. Byddai unrhyw Fesur a gâi ei wneud gan ddibynnu ar y cymhwysedd deddfwriaethol a roddid gan y Gorchymyn yn pennu'n fanylach y mangreoedd y byddai'r Mesur yn gymwys iddyn nhw. Byddai hefyd yn pennu'n fanylach y math o gyfarpar a fyddai i'w osod.

**Eithriadau**

**Terfynau daearyddol unrhyw Fesur Cynulliad**

37. Mae Adran 93 o Ddeddf 2006 yn gwahardd Mesurau Cynulliad rhag cael effaith ac eithrio o ran Cymru. Mae'n darparu na fydd darpariaeth mewn Mesur Cynulliad yn gyfraith i'r graddau y mae y tu allan i gymhwysedd

deddfwriaethol y Cynulliad. Mae darpariaeth y tu allan i gymhwysedd os bydd yn gymwys ac eithrio o ran Cymru, neu os bydd yn rhoi, yn gosod, yn addasu neu'n tynnu swyddogaethau y gellir eu harfer ac eithrio o ran Cymru (neu'n rhoi pŵer i wneud hynny). Mae eithriadau cyfyngedig ar gyfer mathau penodol o ddarpariaethau atodol, er enghraifft darpariaeth sy'n briodol i wneud darpariaethau'r Mesur yn effeithiol, darpariaeth sy'n galluogi darpariaethau'r Mesur i gael eu gorfodi a darpariaeth sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall.

38. Mae'r cyfyngiad ynghylch swyddogaethau ac eithrio o ran Cymru yn golygu na fyddai'r Cynulliad drwy Fesur yn gallu rhoi swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â Chymru i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol Cymru nac unrhyw awdurdod cyhoeddus arall.

**Swyddogaethau Gweinidogion y Goron**

39. Nid yw'r Gorchymyn arfaethedig hwn ynddo'i hun yn ceisio addasu na thynnu oddi ar unrhyw un o Weinidogion y Goron unrhyw swyddogaethau sydd ganddo. Yn rhinwedd Rhan 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, ni chaiff y Cynulliad drwy Fesur newid swyddogaethau Gweinidogion y Goron heb gydsyniad Ysgrifennydd Gwladol Cymru. O ran unrhyw gynigion yn y dyfodol a all effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion y Goron, ymgynghorir â'r Adran briodol yn Llywodraeth y DU a cheisir dod i gytundeb am unrhyw gynigion i newid neu addasu'r swyddogaethau hyn. Swyddogaethau un o Weinidogion y Goron yw gwneud a diwygio'r Rheoliadau Adeiladu, sef swyddogaethau sy'n deillio o Ddeddf Adeiladu 1984, ac nid yw'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig yn effeithio arnyn nhw.

**Y Casgliad**

40. Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, mae Ann Jones AC yn dymuno cynnig y dylid rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â systemau taenellu tân mewn mangreoedd preswyl, yn nhermau'r Gorchymyn arfaethedig drafft sydd ynghlwm wrth y Memorandwm Esboniadol hwn.

**Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Diogelwch Tân yn y Cartref**

**Proposed Domestic Fire Safety LCO Committee**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

19 Mawrth 2008

Annwyl Gyfaill

**Ymgynghoriad Cyhoeddus – Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Diogelwch Tân yn y Cartref**

Ar 26 Chwefror 2008 sefydlwyd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Diogelwch Tân yn y Cartref i ystyried y Gorchymyn arfaethedig, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 7) 2008, ynghylch systemau taenellu mewn adeiladau preswyl.

Mae'r pwyllgor wedi cytuno ar y maes craffu, fel a ganlyn:

- Penderfynu a ddylid rhoi egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig, hynny yw, cymhwysedd deddfwriaethol, fel a nodir ym Mater 11.1, i'r Cynulliad;

- Penderfynu a ydyw'r Gorchymyn arfaethedig yn darparu fframwaith priodol ar gyfer rhoi'r cynigion o ran polisi diogelwch tân yn y cartref ar waith; ac yn benodol, penderfynu a ydyw telerau'r Gorchymyn arfaethedig wedi'u diffinio'n rhy eang neu'n rhy gyfyng.

Ysgrifennaf atoch i'ch gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r pwyllgor.

**Hoffai'r pwyllgor gael tystiolaeth ar y cwestiynau canlynol yn arbennig:**

1. Beth yw eich barn ar yr egwyddor cyffredinol bod cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes a nodir ym Mater 11.1 yn cael ei roi i'r Cynulliad?

2. Beth yw eich barn ar delerau'r Gorchymyn arfaethedig? Er enghraifft, a ydynt yn rhy gyfyng neu'n rhy eang? A fyddant yn caniatáu ar gyfer rhoi'r cynigion o ran polisi, fel a amlinellir yn y memorandwm esboniadol, ar waith yn y dyfodol?

3. A oes angen gosod ystyr 'mangreoedd preswyl newydd' a 'system daenellu' yn y Gorchymyn arfaethedig? Os felly, a ydyw'r darpariaethau o ran dehongli yn briodol, neu a ddylid newid y ffordd y'u drafftiwyd mewn unrhyw ffordd? Os felly, sut a pham y dylid gwneud hynny?

Pwrpas gwaith y pwyllgor yw i graffu ar y ffordd y drafftiwyd y Gorchymyn arfaethedig. Nid gwaith y pwyllgor yw trafod sut y dylid ymarfer y pwerau, os y'u rhoddir, ac, fel y cyfryw, bydd y pwyllgor yn osgoi bod yn rhan o drafodaethau manwl ar Fesurau arfaethedig posibl yn y dyfodol.

Ceir copi o'r Gorchymyn arfaethedig a'r memorandwm esboniadol, ynghyd â manylion y pwyllgor, yn y wefan ganlynol:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-legislative-competence-orders/bus-legislation-lco-2008-7.htm

Os dymunwch gyfrannu at waith y pwyllgor, anfonwch eich cyflwyniad drwy gyfrwng e-bost neu ar ddisg, os yw'n bosibl, neu gopi papur at:
Dirprwy Glerc y Pwyllgor, Y Pwyllgor Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Diogelwch Tân yn y Cartref, Y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Y cyfeiriad e-bost yw: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk. Gofynnir i chi roi'r canlynol fel pennawd i'ch e-bost: *Consultation Domestic Fire Safety LCO Committee.*

**Dylai eich cyflwyniadau gyrraedd y Cynulliad erbyn 25 Ebrill 2008. Efallai na fydd yn bosibl ystyried ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwnnw.**

Wrth baratoi eich cyflwyniad, gofynnir i chi ystyried y canlynol:

- Dylai eich ymateb fod mor gryno ag y bo modd. Defnyddiwch y pennawd uchod fel cyfeirnod i'ch ymateb.
- Fel arfer, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn trefnu bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael i'r cyhoedd fedru craffu arnynt, a gellir eu gweld a'u trafod hefyd mewn cyfarfodydd pwyllgor. **Os nad ydych yn dymuno cael eich ymateb a'ch enw wedi'u cyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn nodi hynny'n glir yn eich cyflwyniad.**
- Gofynnir i chi nodi a ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn.
- Gofynnir i chi nodi a fyddech yn barod i roi tystiolaeth ar lafar i'r pwyllgor.

Croesewir cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd y pwyllgor yn trafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig yn ystod tymor yr haf.

Os oes diddordeb gennych gyfrannu at unrhyw ymgynghori pellach yn y maes hwn, gofynnir i chi nodi hynny yn eich ymateb.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r clerc, Sarah Beasley ar 029 2089 8032, neu'r dirprwy glerc, Lewis McNaughton ar 029 2089 1990.



**Huw Lewis AC**
**Cadeirydd**

**Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Diogelwch Tân yn y Cartref**

**Rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**

| Rhif | Enw/ Sefydliad |
|---|---|
| DFS 1 | Y Rhwydwaith Chwistrellau Tan Ewroppeaidd |
| DFS 2 | Crossroads Caring for Carers |
| DFS 3 | Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru |
| DFS 4 | Gwasanaethau Tan ac Achub |
| DFS 5 | Undeb Brigadau Tan |
| DFS 6 | British Automatic Fire Sprinkler Association Ltd. |
| DFS 7 | National Fire Sprinkler Network |
| DFS 8 | Cymdeithas y Diwydiant Tan |
| DFS 9 | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| DFS 10 | Cymdeithas Taenellwyr Preswyl |
| DFS 11 | Dŵr Cymru Welsh Water |
| DFS 12 | Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Gynaliadwyedd a Thai |
| DFS 13 | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| DFS 14 | Cymdeithas Yswirwyr Prydain |
| DFS 15 | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi / Cydffederasiwn Diwydiant Prydain |
| DFS 16 | Y Sefydliad Ymchwil Adeladau Cymru |
| DFS 17 | Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid |
| DFS 18 | Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai |
| DFS 19 | Castell-nedd Port Talbot Cyngor Bwrdeistref Sirol |

**Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Diogelwch Tân yn y Cartref**

**Rhestr o'r dystiolaeth lafar**

| Dyddiad | Tystion |
|---|---|
| 8 Ebrill 2008 | **Yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Gorchymyn Arfaethedig**<br>▪ Ann Jones AC |
| 15 Ebrill 2008 | **Gwasanaethau Tân ac Achub**<br>▪ Chris Enness, Dirprwy Brif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>▪ Colin Hanks, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>▪ Ray Cassar, Swyddog Staff Strategol, Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaerhirfryn<br>▪ Andy Marles, Dirprwy Brif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| 22 Ebrill 2008 | **Undeb y Brigadau Tân**<br>▪ John Purser, Ysgrifennydd y Frigâd, Gogledd Cymru, Undeb y Brigadau Tân<br><br>**Cymdeithas y Diwydiant Tân**<br>▪ Graham Ellicott, Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas y Diwydiant Tân<br><br>**Y Rhwydwaith Chwistrellau Tân Cenedlaethol**<br>▪ Ronnie King, Is-Gadeirydd<br><br>**British Automatic Fire Sprinkler Association Ltd.**<br>▪ Stewart Kidd, Ysgrifennydd Cyffredinol<br><br>**Y Rhwydwaith Chwistrellau Tân Ewropeaidd**<br>▪ Alan Brinson, Cyfarwyddwr Gweithredol |

| Dyddiad | Tystion |
|---|---|
| 29 Ebrill 2008 | **Cartrefi Cymunedol Cymru**<br>▪ Richard Mann, Cyfarwyddwr Datblygu, United Welsh<br>▪ David Hedges, Cynghorydd Polisi Tai Annibynnol (cyn Brif Weithredwr Cynorthwyol, Cartrefi Cymunedol Cymru)<br><br>**Dŵr Cymru Welsh Water**<br>▪ Keith Pratley, Rheolwr Rheoliadau Dŵr ac Effeithlonrwydd Dŵr<br><br>**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Gynaliadwyedd a Thai**<br>▪ Jane Davidson AC<br>▪ Francois Samuel, Pennaeth yr Uned Adeiladu, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| 6 Mai 2008 | **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**<br>▪ Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Cydraddoldebau a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>▪ Colin Hanks, Dirprwy Brif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (Cynghorydd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)<br><br>**Y Sefydliad Ymchwil Adeiladau Cymru**<br>▪ Colin King, Rheolwr Adeiladu Cynaliadwy<br><br>**Yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Gorchymyn Arfaethedig**<br>▪ Ann Jones AC<br>▪ Keith Bush, Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiolm, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |